Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Canllawiau Atodol i gefnogi'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 11

## Diwallu anghenion y rhai mewn sefydliadau diogel

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r cod ymarfer ar gyfer rhan 11, pennod 1 ar gyfer y rhai mewn sefydliadau diogel, a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – (Deddf 2014).

Wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol â'r gofynion yn y cod ymarfer.  Bydd y canllawiau hyn yn rhoi cyfarwyddyd pellach i'r awdurdod lleol wrth gymhwyso'r cod ymarfer a darparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion mewn sefydliadau diogel yng Nghymru a phobl ifanc o Gymru mewn sefydliadau diogel yng Nghymru neu Lloegr.

Bydd gan asiantaethau partner, gan gynnwys byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, GIG Cymru, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), asiantaethau yn y trydydd sector a'r sector annibynnol, dinasyddion Cymru, a gwladolion tramor sydd mewn carchar yng Nghymru oll ddiddordeb yng nghynnwys y cod ymarfer a'r canllawiau hyn.

## Pennod / Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Proffil o anghenion – oedolion a phobl ifanc | 4 |
| 2. | Cefndir y drefn o reoli'r ystâd sefydliadau diogel, ei hasiantaethau a pholisïau | 6 |
| 3. | Darpariaethau ar gyfer Oedolion – 18 oed a throsodd, mewn sefydliadau diogel yng Nghymru | 12 |
| 4. | Darpariaeth ar gyfer oedolion – 18 oed a throsodd, mewn sefydliadau diogel yn Lloegr | 15 |
| 5. | Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc – dan 18 oed mewn sefydliadau diogel yng Nghymru a Lloegr | 16 |
| 6. | Teuluoedd y rhai sydd mewn sefydliadau diogel | 17 |
| 7. | Ailsefydlu a throsglwyddo | 19 |
| 8. | Partneriaethau | 22 |
| 9. | Goblygiadau o ran y gweithlu | 24 |
| 10. | Adnoddau | 24 |
| 11. | Gofal iechyd mewn sefydliadau diogel | 27 |
| 12. | Rhestr Termau | 28 |

## Atodiadau


1. Canllawiau, Codau Ymarfer a Gwybodaeth ychwanegol berthnasol arall 31
2. Llwybr cenedlaethol ar gyfer y rhai sydd mewn sefydliadau diogel – oedolion 35
3. Llwybr cenedlaethol ar gyfer y rhai sydd mewn sefydliadau diogel – pobl ifanc 60


OGL
ISBN digidol 978-1-4734-6046-1
© Hawlfraint y Goron 2015
WG25383

## Proffil o anghenion – oedolion a phobl ifanc

Mae Asesiad o Anghenion Iechyd Meddwl mewn Carchardai[1] gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013 yn amcangyfrif mai dim ond 8% o'r boblogaeth oedolion mewn carchardai yng Nghymru, ar unrhyw adeg benodol, sydd ddim yn dioddef rhyw fath o broblem iechyd meddwl diagnosadwy. Mae gan y mwyafrif un neu fwy o anawsterau pan ydynt yn dod i sylw a'r rheini'n amrywio o ran difrifoldeb.

Mae adroddiad gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn 2008[2], sy'n disgrifio'r ystod o broblemau a brofir gan garcharorion cyn dechrau eu dedfryd, ac i ba raddau yr oedd carcharorion yn teimlo bod arnynt angen cymorth a chefnogaeth gyda'r problemau hyn yn ystod eu cyfnod mewn dalfa, yn darparu rhagor o wybodaeth am broffil y boblogaeth mewn carchardai.

Mae Surveying Prisoner Crime Reduction 2014 (SPCR)[3] yn cynnig canlyniadau astudiaeth garfan hydredol o garcharorion sy'n oedolion a gafodd ddedfryd rhwng un mis a phedair blynedd yn 2005 a 2006. Gofynnwyd i garcharorion am eu hamser yn y ddalfa gan ddefnyddio cyfweliadau Cam 2, a gynhaliwyd ychydig cyn iddynt gael eu rhyddhau, ac am eu canlyniadau ar ôl cael eu rhyddhau yn ystod y cyfweliadau Cam 3, a gynhaliwyd yn fuan wedi iddynt gael eu rhyddhau.

Cafodd prosiect i broffilio pobl ifanc sy'n droseddwyr mynych (25+ o droseddau) ei gynnal gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru gyda chymorth Llywodraeth Cymru[4]. Dangosodd hwn fod niferoedd sylweddol o bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol heb unrhyw gymwysterau ac wedi cael eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl. Roedd dros draean ar y gofrestr amddiffyn plant, neu wedi bod arni, wedi cael profiad o ddianc neu aros i ffwrdd o'u cartref ac wedi'u hadnabod fel pobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig.

Mae'r adroddiadau hyn, ymhlith rhai eraill, yn ceisio dangos anghenion y rhai mewn sefydliadau diogel[5]. Yn y gorffennol mae'r cyfrifoldeb am ddiwallu anghenion gofala chymorth y rhai mewn sefydliadau diogel wedi bod yn amwys. Roedd adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith yn 2011 yn galw am fwy o eglurder ac aeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'r afael â hyn trwy

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/news/27921

[2] The problems and needs of newly sentenced prisoners: results from a national survey - Duncan Stewart
Cyfres Ymchwil y Weinyddiaeth Gyfiawnder 16/08 Hydref 2008

[3] https://www.gov.uk/government/collections/surveying-prisoner-crime-reduction-spcr

[4] Cynigion i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid, neu sydd eisoes yn rhan ohoni – Atodiad A
http://wales.gov.uk/consultations/people-and-communities/gpyouthjustice/?status=closed&lang=en

[5] Mae sefydliad diogel yn derm generig a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwahanol fathau o ganolfannau cadw ar gyfer plant ac oedolion.

eu priod Ddeddfau: Deddf Gofal 2014 ar gyfer Lloegr, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer Cymru. Mae Deddf 2014, a'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 11, yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel.

## Cefndir y drefn o reoli'r ystâd sefydliadau diogel, ei hasiantaethau a pholisïau.

Mae'r adran hon yn nodi'r asiantaethau a pholisïau sy'n gweithredu o fewn yr ystâd sefydliadau diogel yng Nghymru.

## Oedolion

### 1. Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) yn asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ei rôl yw comisiynu a darparu gwasanaethau i droseddwyr yn y gymuned ac yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr, gan sicrhau'r gwerth gorau am arian o adnoddau cyhoeddus. Mae NOMS yn gweithio i amddiffyn y cyhoedd a lleihau aildroseddu trwy ddarparu'r gosb a gweithredu gorchmynion y llysoedd trwy gefnogi adsefydlu trwy helpu troseddwyr i newid eu bywydau.

Mae NOMS Cymru yn un o Gyfarwyddiaethau NOMS. Mae'n sicrhau bod gwasanaethau rheoli troseddwyr yng Nghymru'n cael eu hintegreiddio ar draws holl siwrne'r troseddwr. Mae gan Gyfarwyddwr NOMS Cymru gyfrifoldeb am y canlynol:

- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru;
- Carchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru;
- Rheoli'r contractau ar gyfer CEM y Parc a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru;
- Cynrychioli NOMS i Lywodraeth Cymru a phartneriaid lleol, gan weithio gyda hwy i gefnogi system ddarparu integredig sy'n ategu cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru.

### 2. Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Mae NOMS yn rheoli'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yn uniongyrchol ac yn rheoli'r contract gyda Working Links, sy'n rhedeg y Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) yng Nghymru. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn arwain ar weithredu'r diwygiadau Trawsnewid Adsefydlu ar gyfer rheoli ac adsefydlu troseddwyr ledled Cymru a Lloegr.

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gyfrifol am gynnal pob asesiad cychwynnol o berygl o niwed a dyrannu troseddwyr i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol, gan ddibynnu ar lefel y risg. Bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn rheoli pob troseddwr a all wneud niwed difrifol i'r cyhoedd (gan gynnwys y rhai y mae eu lefel risg yn codi yn ystod eu cyfnod o fod dan oruchwyliaeth), troseddwyr sydd wedi cyflawni'r troseddau rhywiol a threisgar mwyaf difrifol (gan gynnwys y rhai a reolir dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd

(MAPPA)), gwladolion tramor sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu hallgludo, a nifer fach o achosion budd cyhoeddus eithriadol. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol hefyd yn rheoli mangreoedd a gymeradwywyd yng Nghymru.

## 3. Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol

Un Cwmni Adsefydlu Cymunedol sydd yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am reoli troseddwyr yn y gymuned (troseddwyr risg isel i ganolig yn bennaf). Gan weithio yn y carchardai ailsefydlu, bydd Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn creu cynllun ailsefydlu unigol i ddiwallu anghenion uniongyrchol unigolyn wedi iddo fynd i mewn i'r ddalfa, ac yn gweithio gyda'r unigolyn yn y 12 wythnos cyn ei ryddhau i helpu i gyflawni'r cynllun ailsefydlu a darparu gwasanaethau cysylltiedig.

Fel lleiafswm, bydd Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn darparu'r canlynol ar gyfer unigolion cyn eu rhyddhau; cymorth i ddod o hyd i rywle i fyw ac i'w gadw, cymorth i ddod o hyd i swydd neu'i chadw, cyngor ynghylch arian a dyledion, cymorth a chyngor i weithwyr rhyw a'r rhai sydd wedi dioddef trais neu gam-drin domestig.

## 4. Yr Agenda Trawsnewid Adsefydlu

Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014 yn cefnogi'r Agenda Trawsnewid Adsefydlu. Ar 1 Mehefin 2014, cafodd yr holl ymddiriedolaethau prawf yng Nghymru a Lloegr eu disodli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a 21 o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ledled y DU, gyda Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn gwasanaethu Cymru gyfan.

Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn gyfrifol am droseddwyr risg isel i ganolig a threfnu i lunio cynllun ailsefydlu ar gyfer yr holl droseddwyr sy'n dychwelyd i Gymru ar adeg eu rhyddhau.

Mae'r newidiadau hyn wedi'u bwriadu i sicrhau bod yr holl droseddwyr sy'n oedolion yn cael cymorth ailsefydlu a bod y rhai y cafodd eu trosedd ei gyflawni o 1 Chwefror 2015 ymlaen, sy'n bwrw dedfryd yn y ddalfa am fwy na diwrnod, yn gallu cael eu goruchwylio ar ôl eu rhyddhau am gyfnod o 12 mis o leiaf. Caiff cymorth 'Trwy'r Gât'[6] i droseddwyr ei hwyluso trwy rwydwaith o 89 carchar ailsefydlu ledled Cymru a Lloegr i ddarparu proses ailsefydlu leol i droseddwyr sy'n dychwelyd i'w hardal gartref.

## 5. Trwy'r Gât (oedolion)

O fis Mai 2015 bydd 'Trwy'r Gât' (TTG), sef gwasanaeth ailsefydlu dros Brydain gyfan, yn weithredol. Mae hyn yn golygu y bydd pawb a dderbynnir i'r

[6] https://www.google.co.uk/url?url=https://www.justice.gov.uk/downloads/rehab-prog/competition/target-operating-model.pdf&rct=j&frm=1&q=&esrc=s&sa=U&ei=-BdsVdmJFLWPsQTrkICoDg&ved=0CDgQFjAG&usg=AFQjCNGreQOtoabWlJXDcmwvLytkT61ZRQ – gweler hefyd tudalen 6

ddalfa, gan gynnwys yr holl droseddwyr sy'n oedolion ac sydd ar remand, wedi'u dedfrydu ac wedi'u galw'n ôl, yn cael cymorth parhaus gan un darparwr o'r ddalfa i mewn i'r gymuned. Yng Nghymru, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru fydd yn rhoi'r cymorth hwn.

## Pobl ifanc

### 6. Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Corff cyhoeddus anadrannol yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB). Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ar yr un pryd â diwygiadau ehangach i'r system cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys ffurfio timau troseddau ieuenctid.

Swyddogaethau statudol y Bwrdd yw:

- monitro'r system cyfiawnder ieuenctid
- cynghori Gweinidogion ynghylch ei gweithrediad effeithiol
- canfod a hyrwyddo arfer da
- rhoi grantiau i awdurdodau lleol neu gyrff eraill er mwyn iddynt hwy ddatblygu arfer da
- comisiynu ymchwil a chyhoeddi gwybodaeth am arfer da;
- comisiynu llety diogel a lleoli pobl ifanc ynddo.

Lle bynnag y bo'n bosibl bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ceisio lleoli person ifanc o Gymru mewn sefydliad diogel yng Nghymru, neu sefydliad yn Lloegr sydd â darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc o Gymru. Caiff pobl ifanc eu lleoli yn seiliedig ar eu hanghenion asesedig ac weithiau gellir ystyried mai lleoliad mewn sefydliad yn Lloegr yw'r un mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion.

### 7. Timau Troseddau Ieuenctid

Timau amlddisgyblaethol sy'n cynnwys y gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau addysg, yr heddlu a'r Gwasanaeth Prawf a hwythau'n gweithio gyda'i gilydd yw Timau Troseddau Ieuenctid. Partneriaethau lleol statudol ydynt a sefydlwyd gan adran 39 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998[7]. Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn rhan o'r awdurdod lleol ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol am reoli plant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i orchmynion llys. Yn ôl y sefyllfa ym mis Tachwedd 2015 mae 15 o Dimau Troseddau Ieuenctid[8] yng Nghymru.

Mae pobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan Dimau Troseddau Ieuenctid yn cael eu hasesu gan ddefnyddio Asset/Asset Plus (offer asesu a

[7] Y gofynion manwl yn y Ddeddf yw y dylai timau troseddau ieuenctid gynnwys o leiaf un o bob un o'r canlynol: (a) swyddog o fwrdd prawf lleol neu swyddog o ddarparwr gwasanaethau prawf; (b) gweithiwr cymdeithasol o awdurdod lleol; (c) swyddog heddlu;(d) person a enwebwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol, y mae unrhyw ran o'i ardal yn gorwedd o fewn ardal yr awdurdod lleol; (e) person a enwebwyd gan y prif swyddog addysg a benodwyd gan yr awdurdod lleol

[8] Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fod â Thîm Troseddau Ieuenctid naill ai ar sail unigol neu ar sail partneriaeth; mae 15 Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru, y mae 5 ohonynt yn gwasanaethu dau Awdurdod Lleol yr un ac un yn gwasanaethu tri.

gymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid), sy'n cynnwys 12 maes gwahanol i'w hystyried: trefniadau byw; perthnasoedd teuluol a phersonol; addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; y gymdogaeth; ffordd o fyw; defnyddio sylweddau; iechyd corfforol; iechyd emosiynol a meddyliol; canfyddiad y person amdano'i hun ac am eraill; meddwl ac ymddygiad; agweddau at droseddu; cymhelliant i newid. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyried unrhyw ffactorau amddiffynnol ym mywydau pobl ifanc yn ogystal â phryderon ynghylch bod yn agored i niwed a'r risg o achosi niwed difrifol. Bydd yr asesiad Asset/ Asset Plus yn goleuo'r adroddiad cyn dedfrydu a gynhyrchir gan y Tîm Troseddau Ieuenctid i helpu llys i benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o ymdrin â'r plentyn neu'r person ifanc.

Mae'n ofynnol i dimau troseddau ieuenctid ddefnyddio'r offer asesu hyn i adnabod anghenion ac anawsterau pobl ifanc a'u hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd trwy gydol cyfnod unrhyw orchymyn llys (gorchymyn cymunedol a gorchymyn cadw yn y ddalfa). Mae hyn yn rhoi cyfle i adolygu'r risg y bydd y person ifanc yn troseddu, y risg o niwed difrifol, ei natur agored i niwed yn ogystal â'i anghenion a'i ofynion o ran llesiant ar adegau rheolaidd, i ymateb iddynt ac i gynnwys asiantaethau eraill yn y gwaith o sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu.

Yr allwedd fydd sicrhau bod yr wybodaeth a geir o'r asesiad Asset / Asset Plus yn gallu cael ei defnyddio wrth asesu anghenion gofal a chymorth y person ifanc, a bod yr wybodaeth hon yn gallu cael ei chynnwys wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau dilynol i ddarparu dull cyfannol.

## 8. Cartrefi Plant Diogel

Caiff cartrefi plant diogel eu rhedeg gan awdurdodau lleol ac maent yn cynnig llety cymysg gan ganolbwyntio ar anghenion corfforol, emosiynol ac ymddygiadol y bobl ifanc y maent yn eu lletya, ac yn rhoi cymorth i bobl ifanc sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn comisiynu gwelyau mewn cartref plant diogel ar gyfer y rhai yn y system cyfiawnder troseddol a gall awdurdodau lleol gomisiynu gwelyau lles ar gyfer y rhai y mae'n ofynnol iddynt gael eu lletya mewn llety diogel gan ddilyn y weithdrefn a nodir yn adran 25 o Ddeddf Plant 1989 ac yn Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991. O fis Ebrill 2016 bydd adran 119 o Ddeddf 2014 a Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 yn cynnwys y gofyniad hwn[9]. Un cartref plant diogel sydd yng Nghymru, sef Hillside yng Nghastell-nedd.

## 9. Canolfannau Hyfforddi Diogel

Canolfannau cadw pwrpasol ar gyfer pobl ifanc 12 – 17 oed yw canolfannau hyfforddi diogel a chânt eu rhedeg gan gontractwyr preifat. Nid oes unrhyw ganolfannau hyfforddi diogel yng Nghymru.

[9] http://www.ccwales.org.uk/the-act/
Bydd adran 25 o Ddeddf Plant 1989 a Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991 yn dal i fod mewn grym yn Lloegr.

## 10. Sefydliadau Troseddwyr Ifanc

Caiff Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eu rhedeg gan y gwasanaeth carchardai ac maent yn lletya bechgyn 15 – 17 oed o fewn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae un Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn ne Cymru, sef y Parc, ger Pen-y-bont ar Ogwr.

Caiff bechgyn 15 – 17 oed o ogledd Cymru eu lleoli'n bennaf mewn sefydliad dynodedig. Mae Sefydliad Troseddwyr Ifanc Werrington wedi cael ei adnabod at y diben hwn. Caiff merched eu cadw naill ai mewn cartref plant diogel neu mewn canolfannau hyfforddi diogel.

Er bod Deddf 2014 yn cyfeirio at garchar, a llety mechnïaeth yng nghyd-destun pobl ifanc, yn ymarferol ni fyddai pobl ifanc o Gymru'n cael eu hanfon i'r carchar ond byddent yn cael eu lletya naill ai mewn cartref plant diogel, canolfan hyfforddi ddiogel neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc, gan ddibynnu ar eu hoedran/eu hanghenion.

## 11. Pontio o fod yn Berson Ifanc i fod yn Oedolyn (Y2A)

Bydd pob achos pontio o fod yn berson ifanc i fod yn oedolyn yn cael ei oruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol pryd bynnag y bo'n bosibl yn hytrach na'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, ni waeth beth fo lefel y risg a adnabuwyd[10].

## 12. Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid

Y safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yw'r safonau sy'n darparu'r fframwaith y mae Timau Troseddau Ieuenctid yn gweithredu ynddo, a'r prosesau y mae'n ofynnol iddynt eu dilyn. Caiff y safonau allweddol mewn perthynas â chynllunio a darparu ymyriadau yn y ddalfa a phroses ailsefydlu yn y gymuned (safon 9) eu hamlygu yn y tabl cynllunio.

Mae'r holl bobl ifanc a gaiff eu goruchwylio gan Dimau Troseddau Ieuenctid yn dilyn gofynion y safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, a chanllawiau rheoli achosion a baratowyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
https://www.gov.uk/government/publications/national-standards-for-youth-justice-services

## 13. Canllawiau rheoli achosion

Mae'r canllawiau rheoli achosion y cyfeirir atynt uchod i'w gweld yn:

[10] https://www.gov.uk/government/publications/youth-to-adult-transition-principles-and-guidance-for-wales

https://www.gov.uk/government/collections/case-management-guidance
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=8220

## Darpariaethau ar gyfer Oedolion – 18 oed a throsodd, mewn sefydliadau diogel yng Nghymru

### 14. Dynion

Ym mis Ebrill 2015 roedd 3,265 o droseddwyr gwrywaidd yn cael eu cadw yng Nghymru.

Ar hyn o bryd gall dynion o Gymru, gan ddibynnu ar y llys sy'n dedfrydu, y trosedd, a hyd y ddedfryd, fwrw eu dedfryd ym mron unrhyw un o'r 108 carchar yn Lloegr hefyd gyda nifer arbennig o sylweddol yn CEM Altcourse yn Lerpwl, CEM Oakwood yn Wolverhampton a CEM Stoke Heath yn Swydd Amwythig. Fodd bynnag, bydd sefydlu carchardai ailsefydlu dynodedig yn ddiweddar yn helpu i ddod â'r mwyafrif o'r rhai sydd mewn sefydliadau diogel yn nes at eu hardaloedd ailsefydlu, cyn eu rhyddhau.
**Mae Tabl 1 isod yn dangos cyfleusterau diogel ar gyfer dynion yng Nghymru ym mis Mehefin 2015**

| Enw | Math | Poblogaeth | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|---|
| **CEM Caerdydd** | Lleol/ Ailsefydlu | Dynion o 18 oed | Caerdydd |
| **CEM Abertawe** | Lleol/ Ailsefydlu | Dynion o 18 oed | Abertawe |
| **CEM y Parc** | Lleol/ Hyfforddi/ Ailsefydlu | Dynion o 18 oed | Pen-y-bont ar Ogwr |
| **CEM Brynbuga** | Carchar hyfforddi – Safle Trin Troseddwyr Rhyw | Dynion o 21 oed | Trefynwy |
| **CEM Prescoed** | Carchar Agored/ Ailsefydlu | Dynion o 18 oed | Trefynwy |

Mae carchar newydd yn mynd i fod yn agor yng Ngogledd Cymru yn 2017, yn ardal awdurdod lleol Wrecsam. Bydd gan y cyfleuster newydd yma 2106 o leoedd i wasanaethu Cymru a Lloegr. Mae disgwyl i'r carcharorion cyntaf gael eu derbyn ym mis Chwefror 2017. O'r adeg hon awdurdod lleol Wrecsam fydd

yn gyfrifol am anghenion gofal a chymorth pawb sy'n cael eu cadw yn y sefydliad diogel hwnnw.

Mae mangreoedd a gymeradwywyd yn ymyriad allweddol o ran rheoli risgiau i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae mangreoedd o'r fath yn darparu cyfundrefn strwythuredig fyrdymor o ymyriadau ar gyfer troseddwyr sy'n ddarostyngedig i drwydded neu oruchwyliaeth gymunedol. Prif swyddogaeth y mangreoedd a gymeradwywyd yw amddiffyn y cyhoedd trwy ddarparu trefn well ar gyfer monitro a goruchwylio troseddwyr gan gefnogi eu proses adsefydlu ar yr un pryd. Mae'r mwyafrif o atgyfeiriadau i fangreoedd a gymeradwywyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn rhai ar gyfer troseddwyr risg uchel sy'n ddarostyngedig i oruchwyliaeth statudol, yn dilyn cyfnod yn y ddalfa, a hwy yw'r grŵp sy'n flaenoriaeth o ran meini prawf derbyn o ystyried lefel y risg sy'n gysylltiedig â hwy.

**Mae Tabl 2 isod yn dangos y mangreoedd a gymeradwywyd ar gyfer oedolion ledled Cymru ym mis Mehefin 2015**

| Enw | Math | Poblogaeth | Awdurdod lleol |
|---|---|---|---|
| Quay House | Mangre a Gymeradwywyd | Dynion 18+ oed | Awdurdod Lleol Abertawe |
| Tŷ Newydd | Mangre a Gymeradwywyd | Dynion 18+ oed | Awdurdod Lleol Gwynedd |
| Plas Y Wern | Mangre a Gymeradwywyd | Dynion 18+ oed | Awdurdod Lleol Wrecsam |
| Manderville House | Mangre a Gymeradwywyd | Dynion 18+ oed | Awdurdod Lleol Caerdydd |

## 15. Menywod

Mae CEM Eastwood Park yn Ne Swydd Gaerloyw a CEM Styal yn Swydd Gaer yn rhan o'r ystâd sefydliadau diogel ar gyfer menywod, gan wasanaethu'r llysoedd a darparu swyddogaeth ailsefydlu ar gyfer menywod yng Nghymru a Lloegr. CEM Eastwood Park sy'n cadw'r mwyafrif llethol o fenywod o Gymru a CEM Styal y lleiafrif. Mae'r rhai a anfonir i CEM Styal yn cael eu dedfrydu gan Lysoedd yng Ngogledd Cymru. Mae'r ddau sefydliad yn cadw oedolion a throseddwyr ifanc.

Nid oes unrhyw fangreoedd a gymeradwywyd i fenywod yng Nghymru a dim ond llety mechnïaeth cyfyngedig sydd.

## 16. Cymysg

Mae llety mechnïaeth yn llety ar gyfer pobl a fyddai fel arfer yn byw yn y gymuned ar fechnïaeth neu Gyrffyw Cyfyngu i'r Cartref ond nad oes ganddynt gyfeiriad addas fel arall neu bobl ac arnynt angen rhywfaint o gymorth ychwanegol yn ystod cyfnod eu mechnïaeth neu drwydded Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref. Y bobl sy'n gymwys i dderbyn y gwasanaeth hwn yw'r rhai na ddylent fod yn y carchar.

**Mae Tabl 3 yn dangos y llety mechnïaeth ar gyfer oedolion ledled Cymru ym mis Mehefin 2015**

| Math | Dynion/Menywod | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Llety Mechnïaeth | 3D | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Llety Mechnïaeth | 4D | Caerdydd |
| Llety Mechnïaeth | 2M | Caerdydd |
| Llety Mechnïaeth | 3D | Llanelli |
| Llety Mechnïaeth | 3M (Dros Dro) | Merthyr Tudful |
| Llety Mechnïaeth | 3D | Casnewydd |
| Llety Mechnïaeth | 2D | Casnewydd |
| Llety Mechnïaeth | 3D | Abertawe |
| Llety Mechnïaeth | 3D | Abertawe |
| Llety Mechnïaeth | 3M | Wrecsam |
| Llety Mechnïaeth | 3D | Wrecsam |

## Darpariaeth ar gyfer Oedolion – 18 oed a throsodd, mewn sefydliadau diogel yn Lloegr

### 17. Oedolion yn Lloegr

Bydd rhai oedolion o Gymru'n bwrw'r cyfan, neu ran, o'u dedfryd mewn carchardai yn Lloegr. Bydd troseddwyr benywaidd o Gymru'n bwrw'r cyfan o'u dedfrydau mewn carchardai yn Lloegr gan nad oes carchardai i fenywod yng Nghymru.

Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn darparu gwasanaethau ailsefydlu 'trwy'r gât' yn Eastwood Park gyda gwasanaethau ailsefydlu ar gyfer troseddwyr o Gymru mewn carchardai eraill yn Lloegr yn cael eu darparu gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol perthnasol sy'n gwasanaethu'r ardal honno.

Bydd anghenion gofal a chymorth y troseddwyr sy'n treulio amser mewn sefydliad diogel yn Lloegr yn cael eu diwallu gan yr awdurdod lleol y mae eu sefydliad diogel wedi'i leoli ynddo. Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei chyflawni gan Ddeddf Gofal 2014 a danategir gan y Canllawiau Statudol Gofal a Chymorth – sydd ar cael trwy ddilyn y ddolen ganlynol.
https://www.gov.uk/government/publications/care-act-2014-statutory-guidance-for-implementation

Bydd Adran 17 o'r Canllawiau Statudol – Carchardai, mangreoedd a gymeradwywyd a llety mechnïaeth o ddiddordeb i'r awdurdodau hynny, a'u partneriaid, sydd â chyfrifoldeb am oedolion mewn sefydliadau diogel yng Nghymru.

# Plant a phobl ifanc dan 18 oed mewn sefydliadau diogel yng Nghymru neu Loegr

## 18. Plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel

Ym mis Mehefin 2015 roedd tua 50 o blant a oedd yn byw yng Nghymru mewn llety cadw ieuenctid. Mae'r mwyafrif o bobl ifanc a leolir mewn sefydliadau diogel yn cael eu lleoli yn y ddau sefydliad diogel yng Nghymru; Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chartref Plant Diogel Hillside yng Nghastell-nedd.

**Mae Tabl 4 isod yn dangos y cyfleusterau diogel i blant a phobl ifanc yng Nghymru ym mis Mai 2015**

| | Math | Poblogaeth | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|---|
| **Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc** | Uned pobl ifanc | Yn cadw pobl ifanc 15 – 17 oed | Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Hillside** | Cartref Plant Diogel | Pobl ifanc hyd at 18 oed | Castell-nedd |

## 19. Cartref Plant Diogel Hillside

Mae Cartref Plant Diogel Hillside yn gweithredu fel rhan annatod o ddarpariaeth y gwasanaethau cymdeithasol i blant yng Nghymru. Mae'r cartref plant diogel yn lletya hyd at 22 o blant a phobl ifanc o'r naill ryw neu'r llall rhwng 12 ac 17 mlwydd oed. Ym mis Mai 2015, roedd 10 o'r 22 gwely wedi'u comisiynu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Nid yw merched yn cael eu lletya mewn sefydliadau troseddwyr ifanc mwyach ac maent yn cael eu lleoli mewn cartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel.

## 20. Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc

Mae Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ger Pen-y-bont ar Ogwr yn ne Cymru'n cynnwys 64 gwely ac yn lletya bechgyn 15 i 17 oed.

## 21. Sefydliad Troseddwyr Ifanc Werrington

Mae Sefydliad Troseddwyr Ifanc Werrington yn Stoke yn lletya bechgyn 15-17 oed o Ogledd Cymru. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi comisiynu gwasanaeth gan Werrington yn benodol i gefnogi anghenion dynion ifanc o Gymru.

Mae nifer fach o blant a phobl ifanc o Gymru'n cael eu lletya mewn ardaloedd eraill yn Lloegr.

Deddf Plant 1989, a'r rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf honno, yn enwedig Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Lloegr) 2010 a Rheoliadau Ymweliadau â Phlant a Oedd yn Arfer Derbyn Gofal sy'n Cael Eu Cadw (Lloegr) 2010 yw'r sail pan fo'r awdurdod lleol cartref yn Lloegr yn cadw cyfrifoldeb am y plant hyn.

### 22. Pobl sy'n gadael gofal

Mae pobl sy'n gadael gofal yn golygu'r bobl ifanc hynny sy'n gadael gofal yr awdurdod lleol. Gall pobl ifanc adael gofal yn ffurfiol pan ydynt yn 18 oed ond mae'r awdurdod lleol yn cadw peth cyfrifoldeb am blant a oedd yn derbyn gofal ganddo yn y gorffennol y tu hwnt i'w 18fed pen-blwydd os yw'r person ifanc yn hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn dilyn, neu'n dymuno dilyn, rhaglen addysg neu hyfforddiant neu os gadawodd ofal yr awdurdod lleol dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys darparu cyngor a chymorth. Mae adran 104 o Ddeddf 2014 yn cynnwys darpariaeth ynglŷn â chyfrifoldebau awdurdod lleol mewn perthynas â phobl sy'n gadael gofal rhwng 16 a 25 oed fel y bo'n briodol. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol, a'r sefydliadau sy'n bartneriaid iddynt, yn cydnabod y gall pobl sy'n gadael gofal fod yn oedolion neu'n blant gan ddibynnu ar eu hoedran.

## Teuluoedd y rhai sydd mewn sefydliadau diogel

### 23. Cam-drin domestig

Gwefan gan Lywodraeth Cymru yw Byw Heb Ofn, sy'n darparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod.
http://bywhebofn.llyw.cymru/about/?lang=cy

Fel rhan o bolisi Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o arwyddion a symptomau cam-drin domestig, mae'n rhaid i'r holl weithwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gwblhau pecyn hyfforddiant e-ddysgu. Bydd hyn yn cynnwys pawb sy'n gweithio gydag oedolion, plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel. Mae'r pecyn hyfforddiant e-ddysgu ar gael yn:
http://awa.learningpool.com/login/index.php

Dylai'r rhai nad ydynt yn cael eu cyflogi gan awdurdod lleol na bwrdd iechyd lleol anfon neges e-bost i
elearning.nhswales@wales.nhs.uk er mwyn cael gwybodaeth ynghylch sut i gael mynediad at yr adnodd.

## 24. Teuluoedd sy'n gofyn am asesiad gofal a chymorth

Yng Nghymru, bydd gan deuluoedd y rhai sydd mewn sefydliadau diogel yr un hawl i'r wybodaeth, y cyngor a'r cynhorthwy a ddarperir dan adran 17 o Ddeddf 2014, i wasanaethau llesiant ataliol ac i asesiad o anghenion o ran gofal a chymorth ag unrhyw unigolyn yn ardal yr awdurdod lleol. Yr awdurdod lleol lle mae aelodau'r teulu'n byw fel arfer fyddai'n gyfrifol am eu hanghenion gofal a chymorth.

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle fel bod aelod o'r teulu'n gallu codi pryderon ynghylch anghenion gofal a chymorth unigolyn mewn sefydliad diogel a chael sicrwydd y bydd asesiad o anghenion gofal a chymorth yn cael ei gwblhau, ni waeth pa un a yw'n byw yn ardal yr un awdurdod lleol ai peidio.

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod unigolyn mewn sefydliad diogel yn gallu codi pryderon ynghylch anghenion gofal a chymorth aelod(au) o'r teulu a chael sicrwydd y bydd asesiad o anghenion gofal a chymorth yn cael ei gwblhau, ni waeth pa un a yw'n byw yn ardal yr un awdurdod lleol ai peidio.

Os yw'r achos yn ymwneud ag ardaloedd mwy nag un awdurdod lleol yna dylai awdurdodau lleol sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer atgyfeirio a rhannu gwybodaeth rhwng ymarferwyr, i sicrhau bod gwybodaeth, a chanlyniad unrhyw asesiadau perthnasol a fydd yn effeithio ar aelodau eraill y teulu, yn cael eu rhannu ac y gweithredir arnynt.

## 25. Plant sydd â rhiant yn y carchar

Mae plant i droseddwyr yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a NOMS Cymru. Gyda'i gilydd, mae PACT a Barnardos[11] wedi ystyried yr effaith ar blant sydd â rhiant yn y carchar. Amcangyfrifir bod gan 200,000 o blant riant yn y carchar ledled Cymru a Lloegr. Mewn llawer o achosion, nid yw canlyniadau llesiant plant sydd â rhieni yn y carchar gystal â rhai eu cyfoedion; ac mae plant sydd â rhiant yn y carchar:

- ddwywaith yn fwy tebygol o brofi problemau ymddygiad a phroblemau iechyd meddwl, ac yn llai tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol a hefyd
- deirgwaith yn fwy tebygol o droseddu. Bydd chwe deg pump y cant o fechgyn sydd â thad a gafwyd yn euog yn mynd ymlaen i droseddu eu hunain.

Dylai awdurdodau lleol ddatblygu trefniadau atgyfeirio i sicrhau, pan gaiff gwybodaeth am blant a theulu troseddwyr ei hadnabod, yn aml trwy'r Offeryn Sgrinio Sylfaenol yn y Ddalfa (a gaiff ei gwblhau mewn dwy ran – Rhan 1 o

[11] http://www.prisonadvice.org.uk/news/barnardos-children-prisoners-report

fewn y 72 awr gyntaf a Rhan 2 o fewn 5 niwrnod i gyrraedd y ddalfa), bod atgyfeiriad yn cael ei wneud at yr awdurdod lleol y mae'r plant yn byw yn ei ardal. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod lleol cartref i asesu'r effaith y gallai symud y rhiant fod wedi'i chael ar y teulu, a chanfod a oes gan unrhyw blant yn y teulu unrhyw anghenion gofal a chymorth (adran 21, Rhan 3).

## Ailsefydlu neu drosglwyddo

### 26. Rolau mewn cynlluniau ailsefydlu neu drosglwyddo

Pan fo unigolyn mewn carchar neu sefydliad diogel ar fin cael ei ryddhau neu ei drosglwyddo i sefydliad arall, mae'n rhaid i Lywodraethwr/Cyfarwyddwr y sefydliad hwnnw hysbysu'r awdurdod lleol y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal (LAPB) ynghylch y manylion a'r dyddiad rhyddhau neu drosglwyddo arfaethedig.

Wedyn mae'n rhaid i'r awdurdod lleol y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal hysbysu'r awdurdod lleol sy'n derbyn ynghylch y symud cyn gynted ag sy'n ymarferol, ac yna mae'r trefniadau hygludedd yr un fath ag ar gyfer unrhyw un arall sy'n byw yn y gymuned e.e. bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol sy'n derbyn ystyried cwblhau ei asesiad ei hun pan fo'r unigolyn yn cyrraedd.

Bydd angen i'r awdurdod sy'n derbyn ystyried anghenion posibl rhai unigolion pan ydynt yn gadael amgylchedd diogel a strwythuredig i fyw yn y gymuned, hyd yn oed os nad oedd angen gofal a chymorth arnynt tra'r oeddent yn y ddalfa.

Bydd gan y gwasanaethau prawf (Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru) rôl bwysig o ran arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau ailsefydlu'r troseddwr. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda gwasanaethau prawf i sicrhau bod cysylltiadau effeithiol rhwng y cynllun ailsefydlu a chynlluniau gofal a chymorth unigolyn, ac unrhyw faterion diogelu.

Yn y mwyafrif o achosion bydd unigolyn yn cael ei annog i ailsefydlu yn ôl yn yr ardal yr oedd yn byw ynddi fel arfer cyn cael ei roi ar remand / ei ddedfrydu. Bydd yn ofynnol i'r unigolyn fyw mewn ardal sy'n cyd-daro ag ardal y mae'n debygol o gael ei oruchwylio ynddi, tra bo asesiad risg yn yr arfaeth. Fodd bynnag, bydd angen i'r risg i'r unigolyn, ystyriaethau o ran y dioddefwr a materion o ran amddiffyn y cyhoedd gael eu hystyried gan y gwasanaethau prawf cyn i'r penderfyniad hwn gael ei wneud.

Hyd yn oed os nad yw unigolyn wedi bod yn gymwys i gael gofal a chymorth tra'r oedd yn bwrw ei ddedfryd, bydd gan yr awdurdod lleol y mae'r unigolyn yn bwriadu ailsefydlu yn ei ardal ddyletswydd i ystyried anghenion yr unigolyn a chynnig gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a mynediad at wasanaethau llesiant ataliol yn y gymuned, yn union fel y byddai ar gyfer unrhyw un arall sy'n byw yn ei ardal.

Dylai awdurdodau lleol yng Nghymru weithio gyda'r awdurdod lleol cyfatebol yn Lloegr os yw'r unigolyn dan sylw wedi bod yn bwrw ei ddedfryd mewn sefydliad diogel yn Lloegr ond yn mynd i fod yn ailsefydlu yng Nghymru. Dylid nodi nad oes carchardai i fenywod yng Nghymru ac felly bod yn rhaid i awdurdodau lleol gymhwyso'r trefniadau trawsffiniol ar gyfer yr holl fenywod sy'n ailsefydlu yn ôl yng Nghymru, yn dilyn bwrw dedfryd o garchar.

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol fod yn ymwybodol o'r gofynion dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i helpu'r rhai sy'n dychwelyd i Gymru mewn sefydliad diogel, ac sydd dan fygythiad o ddigartrefedd, ddod o hyd i lety addas ar ôl cael eu rhyddhau a bod yn rhan o'r broses o gynllunio 'ar gyfer rhyddhau' mor gynnar â phosibl.
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=8220

Ceir mwy o fanylion yn y *Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd 2015*
http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/managing-social-housing/allocate/?lang=cy

Mae'r *Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel* yn tanategu *Deddf Tai (Cymru) 2014* a'r cod canllawiau.
http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/homelessness/?lang=cy

Bydd hefyd yn bwysig ystyried y trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA) a bod y broses yn cael ei goleuo gan y trefniadau hyn pan fo hyn yn berthnasol i ailsefydlu unigolyn. Mae MAPPA yn manteisio ar rannu gwybodaeth mewn ffordd gydgysylltiedig am bob troseddwr MAPPA ar draws yr asiantaethau, ac yn sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu cyfeirio mewn ffordd sy'n gwella'r trefniadau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd. Byddai'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth ar lefel yr awdurdod lleol eisoes yn rhan o reoli troseddwyr MAPPA tra'u bod mewn ysbytai seiciatryddol ac unwaith y maent wedi cael eu rhyddhau i'r gymuned.

## 27. Yng Nghymru – ailsefydlu oedolion

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru fod yn ymwybodol o effaith troseddwyr sy'n gadael carchar ac yn ymgartrefu neu'n ailsefydlu yn eu hardal. Bydd yn rhaid iddynt gyflawni'r cyfrifoldebau hygludedd dan Ddeddf 2014 yn yr un ffordd ag ar gyfer unrhyw un yn y gymuned sy'n ceisio symud i'r ardal o ran arall o Gymru, yn amodol ar y materion o ran risg ac amddiffyn a godir gan y gwasanaethau prawf.

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru fabwysiadu'r dull a nodir ym mharagraff 26 uchod, i reoli'r broses o drosglwyddo neu ailsefydlu unigolyn o

sefydliad diogel i'w hardal leol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdodau lleol hynny sydd â charchardai o fewn eu ffiniau, ac sydd hyd yma wedi bod yn gyfrifol am ddiwallu anghenion yr unigolion hynny o ran gofal a chymorth tra'r oeddent yn y ddalfa. Er mwyn helpu hyn, dylai awdurdodau ddeall rôl a swyddogaeth y carchardai, yr awdurdodau lleol o fewn dalgylch y carchardai a'r prif ardaloedd ailsefydlu. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn ei chael yn ddefnyddiol cynnwys cydweithwyr o NOMS Cymru i helpu i oleuo'r penderfyniadau hynny.

## 28. O Loegr i Gymru - oedolion

Pan fo oedolyn yn cael ei ryddhau o garchar yn Lloegr ac yn dychwelyd neu'n ailsefydlu i Gymru, bydd y cyfrifoldebau am ofal a chymorth yr unigolyn yn symud hefyd, o fod yn cael eu cyflawni dan Ddeddf Gofal 2014 yn Lloegr, i gael eu cyflawni dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yng Nghymru.

Bydd trefniadau trawsffiniol, a ddatblygwyd rhwng yr Adran Iechyd a Llywodraeth Cymru, yn gymwys - Atodiad 4.

Mae'n rhaid i'r holl awdurdodau lleol ledled Cymru nodi sut y byddant yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdodau lleol hynny yn Lloegr sydd â charchardai a / neu fangreoedd a gymeradwywyd o fewn eu ffiniau, ac sydd hyd yma wedi bod yn gyfrifol am ddiwallu anghenion yr unigolion o ran gofal a chymorth tra'r oeddent yn cael eu cadw.

Bydd angen i awdurdodau lleol yng Nghymru fod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau yn y meini prawf cymhwystra a fydd yn weithredol yng Nghymru a Lloegr – Cod Ymarfer ar Ddiwallu Anghenion, Rhan 4.

## 29. Ailsefydlu (pobl ifanc)

Timau Troseddau Ieuenctid sy'n cydgysylltu'r trefniadau ailsefydlu ar gyfer plant a phobl ifanc. Caiff y gofynion yn hyn o beth eu nodi yn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid[12]. Mae adran 9 yn disgrifio'r prosesau a'r gweithdrefnau yn hyn o beth.

[12] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/296274/national-standards-youth-justice-services.pdf

Mae Protocol Cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cyfrifoldeb am Achosion[13] yn nodi'r trefniant pan fo achosion sydd dan oruchwyliaeth Tîm Troseddau Ieuenctid yn cael eu trosglwyddo o un ardal i'r llall.

## Partneriaethau

### 30. Cyfleoedd i bartneriaid

Er bod y dyletswyddau newydd dan Ddeddf 2014 yn dod i ran awdurdodau lleol, cydnabyddir na all yr awdurdod lleol gyflawni'r dyletswyddau ar gyfer y rhai sydd mewn sefydliadau diogel ar ei ben ei hun. Bydd y darpariaethau dan Ddeddf 2014 yn rhoi cyfleoedd i wella'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth mewn modd a fydd o fudd i'r unigolyn a'r gymuned. Er mwyn gwireddu'r manteision bydd angen dull integredig gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol a'u rhwydweithiau presennol i gefnogi anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a lleihau'r risg o ymddygiad troseddol.

Dylai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth ar draws eu hadrannau: gwasanaethau cymdeithasol, tai ac addysg i sicrhau y cynigir ymateb cyson a chyfunol.

### 31. Partneriaethau Ailintegreiddio ac Ailsefydlu

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno dyletswydd (a alluogir gan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i weithredu Byrddau Partneriaeth Ailintegreiddio ac Ailsefydlu (RRPBs). Bydd y rhain yn gweithio i atal aildroseddu pellach gan y bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o symud ymlaen ymhellach yn y system, ac i sicrhau eu bod yn cael eu hailsefydlu'n effeithiol.

Bydd nodau trosfwaol y Byrddau Partneriaeth Ailintegreiddio ac Ailsefydlu yn cynnwys y gallu i ddarparu arweinyddiaeth ranbarthol, cymorth gwell i bobl ifanc a pherthnasoedd mwy effeithiol rhwng darparwyr allanol.

### 32. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae Rhan 9 o Ddeddf 2014 yn nodi'r trefniadau partneriaeth sy'n ofynnol. Dan y cod ymarfer ar gyfer Rhan 9 o Ddeddf 2014 mae'n rhaid i awdurdodau lleol sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar draws chwe ardal yng Nghymru. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl allweddol o ran dod â phartneriaid ynghyd i bennu ble y bydd darpariaeth gofal a chymorth integredig o'r budd mwyaf i bobl yn eu rhanbarth. Bydd gan Fyrddau

[13] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2014) Protocol Cenedlaethol ar gyfer Cyfrifoldeb am Achosion – Canllaw Ymarfer i Dimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr, Llundain: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/369248/national-protocol-for-case-responsibility.pdf

Partneriaeth Rhanbarthol rôl hanfodol hefyd o ran goruchwylio a llywodraethu trefniadau partneriaeth. Gyda'r newid i gyllidebau ac adnoddau cyfun, mae'n hanfodol bod trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol yn eu lle i ymateb i'r asesiad poblogaeth. Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol oruchwylio bod gofal a chymorth yn cael eu darparu'n effeithiol yn y rhanbarthau, gan gynnwys y gofynion o ran eiriolaeth ar gyfer yr holl unigolion.

Bydd angen i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau hefyd bod gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy'n cael eu cynnig mewn modd sy'n hygyrch ac yn gweddu i anghenion y boblogaeth. Dylai awdurdodau lleol arwain y gwaith o gytuno, gyda phartneriaid rhanbarthol, pa elfennau o'r gwasanaeth ddylid eu datblygu ar sail genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 2 o'r Ddeddf yn cynnwys cyngor pellach ynghylch darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

### 33. Byrddau Partneriaeth Iechyd yn y Carchar

Mae Bwrdd Partneriaeth Iechyd yn y Carchar ar gyfer pob carchar yng Nghymru. Mae'r byrddau partneriaeth lleol hyn yn dod â chynrychiolwyr ynghyd o'r carchar a'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer yr ardal y mae'r carchar wedi'i leoli ynddi. Diben y Byrddau hyn yw darparu gwybodaeth ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd i ddiwallu anghenion y boblogaeth oedolion mewn carchardai.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol archwilio cyfleoedd i ymuno â'r Byrddau Partneriaeth Iechyd yn y Carchar ac ymestyn yr amodau gorchwyl i gynnwys darparu gofal a chymorth ar ôl 2016.

### 34. Rhwydwaith Gwella Iechyd mewn Carchardai

Fforwm trosfwaol yw'r Rhwydwaith Gwella Iechyd mewn Carchardai sy'n dwyn ynghyd y rhanddeiliaid allweddol o'r carchardai ar gyfer oedolion a darparwyr gofal iechyd ar gyfer y carchardai hyn. Dylai awdurdodau lleol archwilio cyfleoedd i ymuno â'r rhwydwaith hwn ac ymestyn yr amodau gorchwyl i gynnwys darparu gofal a chymorth ar ôl 2016.

## Goblygiadau o ran y gweithlu

### 35. Arferion gweithredol

Dylai awdurdodau lleol, a'u partneriaid, adnabod yr arferion gweithredol allweddol sy'n ofynnol dan y llwybrau cenedlaethol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn darparu adnodd staff priodol sy'n meddu ar sgiliau priodol ac wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni'r dyletswyddau dan Ddeddf 2014.

Mae'n rhaid bod gan staff sy'n cefnogi'r rhai sydd mewn sefydliadau diogel ddigon o wybodaeth am y gyfundrefn gofal a chymorth a sgiliau i ddeall ac adnabod anghenion am ofal a chymorth. Hefyd, bydd angen i staff fod â dealltwriaeth eglur am y ffordd orau o ddarparu gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn a bydd angen iddynt hefyd fod â dealltwriaeth am ofynion y sefydliad diogel arbennig hwnnw gan gynnwys angen am gyfrifoldebau o ran diogelwch a diogelu.

### 36. Gweithio cydweithredol

Mae'n rhaid i staff weithio'n gydweithredol ar draws eu hadrannau eu hunain a chydag asiantaethau eraill, megis cydweithwyr ym maes tai sy'n gweithio'n unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 i ateb y gofynion i ddarparu gofal a chymorth effeithiol ac wedi'u symleiddio ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion ar sail mewngymorth – gan ddod â'r gwasanaethau hyn i mewn i sefydliadau diogel fel bod unigolion yn gallu cael mynediad atynt.

## Adnoddau

### 37. Adnoddau digonol

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol drefnu bod adnoddau digonol yn eu lle (staff a mathau eraill) i gyflawni'r dyletswyddau dan Ddeddf 2014 i ddiwallu anghenion y rhai mewn sefydliadau diogel o ran gofal a chymorth.

Er y bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol â chyfrifoldeb am oedolion mewn sefydliadau diogel / â charchardai o fewn eu ffiniau yn cydweithio'n agos gyda'u partneriaid lleol i ddatblygu a gweithredu trefniadau gofal a chymorth, nid oes unrhyw beth i ragwahardd awdurdodau lleol rhag cydweithio gyda'i gilydd, a/neu gydag asiantaethau eraill i ddatblygu dull cenedlaethol.

### 38. Asesiad cychwynnol o anghenion

Dylai awdurdodau lleol, ar y cyd â'u partneriaid, gynnal asesiad cychwynnol o anghenion yn eu hunedau diogel lleol, gan gynnwys y Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn CEM y Parc a Chartref Plant Diogel Hillside, mewn mangreoedd a gymeradwywyd a llety mechnïaeth yn eu hardaloedd cyn mis Ebrill 2016.

Bydd y gwaith hwn yn adnabod proffil y boblogaeth a'r galwadau tebygol ar y system gofal a chymorth leol. Bydd NOMS Cymru a chynrychiolwyr y carchardai unigol yn gallu darparu data ynghylch y proffil demograffig a pheth gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth posibl y rhai sydd yn y sefydliadau hynny. Bydd Byrddau Iechyd Lleol yn gallu darparu data ynghylch anghenion poblogaeth y carchardai lleol o ran iechyd; a bydd yr wybodaeth hon yn goleuo'r broses o gynllunio'r trefniadau gofal a chymorth newydd hyn.

### 39. Rheolwr/ Goruchwylydd Troseddwyr sy'n Oedolion

Dylai awdurdodau lleol gael eu hannog i ddefnyddio adnoddau presennol y rheolwyr troseddwyr sy'n oedolion (Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol) a goruchwylwyr troseddwyr yn y ddalfa fel ffyrdd o greu pecyn cyfannol o ofal a chymorth ar gyfer unigolion. Bydd yn bwysig bod hyn yn rhan o reoli risgiau'r unigolyn o ran ymddygiad troseddol, rheoli ei anghenion ac amddiffyn y cyhoedd.

### 40. Plant a phobl ifanc

Caiff y cyfrifoldeb am blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel ei gadw gan yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru. Bydd angen i awdurdodau lleol gydweithio i ystyried sut orau i ddarparu trefniadau gofal a chymorth cyson a chynhwysfawr ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ac yn Hillside ac mewn sefydliadau yn Lloegr.

### 41. Adnoddau Carchardai

Mae carchardai a'u partneriaid yn darparu ystod sylweddol o wasanaethau a bydd y rhain yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu'r trefniadau ymyrryd yn gynnar ac atal. Er enghraifft, bydd y rhai sydd yn y carchar yn cael prydau bwyd gan gyfundrefn y ddalfa, gyda mynediad at ofal sylfaenol ar y safle a mynediad at gyfleoedd addysg/gwaith. Nid yw hyn yn rhagwahardd yr awdurdod lleol rhag adnabod gwasanaethau llesiant ataliol gofal a chymorth ychwanegol a allai gael eu datblygu a'u gweithredu o fewn sefydliadau diogel. Mae manteision i sicrhau, lle mae gwasanaethau presennol neu wasanaethau newydd ar gael, bod y rhain yn cael eu cysylltu â/ yn gallu atgyfeirio'n weithredol at wasanaethau llesiant yn y gymuned y gall fod ar unigolyn eisiau/ angen cysylltu â hwy pan fydd yn cael ei ryddhau.

Mae Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai yn darparu gwybodaeth am adnoddau carchardai ar gyfer oedolion y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i oleuo'r broses o gynllunio ar gyfer y trefniadau gofal a chymorth newydd. Mae Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai'n cwmpasu carchardai yng Nghymru a Lloegr oni bai eu bod yn nodi fel arall ac maent ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol:
http://www.justice.gov.uk/offenders/psis

Mae Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai a gyhoeddwyd gan NOMS ac sy'n berthnasol yn cynnwys y canlynol ond nid y rhain yn unig:

- PSI 15/2015 Gofal Cymdeithasol Oedolion
- PSI 16/2015 Diogelu Oedolion mewn Carchardai
- PSI 17/2015 Carcharorion yn Cynorthwyo Carcharorion Eraill

Lle y bo'n briodol, bydd y cyfarwyddiadau uchod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru gan NOMS i gydnabod y trefniadau yng Nghymru dan Ddeddf 2014 o fis Ebrill 2016.

## Gofal iechyd mewn sefydliadau diogel

### 42. Cyfrifoldebau byrddau iechyd lleol

Cafodd y cyfrifoldeb am wasanaethau iechyd i oedolion mewn carchardai yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ei drosglwyddo o'r Swyddfa Gartref i Lywodraeth Cynulliad Cymru (fel y'i gelwid ar y pryd) ym mis Ebrill 2003.

Gosododd Deddf y GIG (Cymru) 2006 ddyletswydd cydweithredu ar y GIG a'r Gwasanaeth Carchardai gyda golwg ar wella'r ffordd yr oedd eu priod swyddogaethau'n cael eu harfer. Ym mis Ebrill 2006 cafodd y cyfrifoldeb hwn ei ddatganoli i'r byrddau iechyd lleol (BILlau) perthnasol. Y byrddau perthnasol bellach yw:

- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan – Carchardai EM Brynbuga a Phrescoed, Sir Fynwy
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Carchar EM Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – Carchar EM Abertawe

Carchar sy'n cael ei redeg gan y sector preifat yw CEM y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gorwedd y cyfrifoldeb am gomisiynu gofal iechyd sylfaenol yn y carchar hwn gyda NOMS Cymru ac fe'i cyflawnir trwy eu contract gyda phrif weithredydd y carchar.

Gorwedd y cyfrifoldeb am ddiwallu anghenion pobl mewn sefydliadau diogel o ran gofal iechyd eilaidd a thrydyddol, pa un a ydynt yn cael eu cadw mewn carchar yn y sector cyhoeddus ynteu yn y sector preifat, gyda'r GIG yng Nghymru.

Mae pum cam ymyrryd allweddol yn ystod siwrne unigolyn trwy'r system cyfiawnder troseddol i'r carchar lle byddai peth ymyriad iechyd yn cael ei ddarparu:

- Y cam arestio – Gall dalfa'r heddlu fod â darpariaeth iechyd meddwl a gwasanaeth i atgyfeirio pobl i gael triniaeth am gyffuriau.
- Cam y Llys – Mynediad at wasanaeth Nyrs Gyswllt Iechyd Meddwl.
  Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sy'n gyfrifol am baratoi adroddiadau ar gyfer y llys ar y rhai sy'n cael dedfryd o garchar ac am asesiad risg y troseddwr a ddedfrydir.
- Y Cam Derbyn a Sefydlu yn y Carchar – Bydd pawb mewn sefydliad diogel yn cael asesiad sgrinio sylfaenol ac asesiad gofal iechyd a fydd yn cynnwys y tîm gofal iechyd ac eraill. Byddai hyn yn parhau yn ystod dyddiau cynnar proses sefydlu'r carcharor i helpu i oleuo'r ymyriadau sy'n ofynnol ar gyfer y carcharor ac i baratoi'r cynllun dedfrydu gan yr Uned Rheoli Troseddwyr yn y carchar. Yn dilyn y cam derbyn, y gwasanaethau prawf fydd yn gyfrifol am ddatblygu cynllun ailsefydlu ar gyfer y carcharor.
- Newid yn amgylchiadau carcharor tra'i fod yn y carchar.

- Ailsefydlu a rhyddhau carcharor.

Efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno ystyried manteision darparu unrhyw wasanaethau neu gyswllt ar y camau penodol hyn yn y siwrne. Ceir camau ymyrryd tebyg ar gyfer plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel a all sicrhau bod staff gofal iechyd a staff Timau Troseddau Ieuenctid yn gallu cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i adnabod anghenion gofal a chymorth unigolyn a gwneud atgyfeiriad:

- Cam y llys a chyn dedfrydu
- Adeg derbyn i'r sefydliad diogel
- Tra bo'r plentyn neu'r person ifanc yn y sefydliad diogel
- Cyn rhyddhau
- Y diwrnod rhyddhau
- Ar ôl rhyddhau

## RHESTR TERMAU

Mae pennod 1 yn y cod ymarfer ar gyfer Rhan 11 yn cynnig diffiniadau a dehongliadau o fewn Deddf 2014. Mae termau ac acronymau ychwanegol a ddefnyddir yn rheolaidd ymhlith y partneriaid hynny yn y sector statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio mewn sefydliadau diogel wedi'u cynnwys yn y rhestr termau hon. Bydd hyn yn cynnig arweiniad pellach i'r rhai sy'n asesu ac yn diwallu anghenion gofala chymorth y rhai sydd mewn sefydliad diogel.

**Asset / Asset Plus** – mae asesiad o'r math yma'n golygu'r offeryn asesu a gymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac a ddefnyddir gan Dimau Troseddau Ieuenctid.

**Pobl sy'n gadael gofal** – y bobl ifanc hynny sy'n gadael gofal yr awdurdod lleol.

**CRCs** – y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol sy'n arwain y gwaith o gyflawni'r diwygiadau Trawsnewid Adsefydlu ac yn goruchwylio'r holl droseddwyr risg isel i ganolig ledled Cymru a Lloegr.

**CRCW** –Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru**.**

**LAPB** – yr awdurdod lleol y mae'r carchar neu sefydliad diogel arall wedi'i leoli yn ei ardal.

**Carchar Lleol** – mae hyn yn golygu carchar sy'n gwasanaethu'r llysoedd yn ei ddalgylch a'r rhai y bydd yn eu cadw ar remand.

**MAPPA** – trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd.

**NOMS** – y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Mae NOMS yn asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ei rôl yw comisiynu a darparu gwasanaethau i droseddwyr yn y gymuned ac yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr, gan sicrhau'r gwerth gorau am arian o adnoddau cyhoeddus.

**NPS** - y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, sy'n cynnal pob asesiad cychwynnol o berygl o niwed ac yn dyrannu troseddwyr i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn goruchwylio pob troseddwr a all wneud niwed difrifol i'r cyhoedd, troseddwyr sy'n wladolion tramor, achosion sy'n cael eu goruchwylio gan MAPPA ac achosion budd cyhoeddus.

**Gwasanaethau prawf** – gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

**Carchar Ailsefydlu** – carchar sy'n lletya unigolyn sy'n debygol o ailsefydlu yn yr ardal leol o fewn 12 wythnos i ryddhau'r unigolyn hwnnw.

**Cartrefi plant diogel** – mae'r rhain yn darparu lleoliadau lles neu gyfiawnder ar gyfer bechgyn a merched 10 – 17 oed ac yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol.

**Sefydliadau diogel** – carchardai, mangreoedd a gymeradwywyd, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth yn ôl y diffiniadau yn Neddf 2014. Gall hefyd olygu cartrefi plant diogel, canolfannau hyfforddi diogel a sefydliadau troseddwyr ifanc.

**Canolfannau Hyfforddi Diogel** – canolfannau cadw ar gyfer bechgyn a merched 12-17 oed sy'n cael eu rhedeg gan gontractwyr preifat. Nid oes unrhyw ganolfannau hyfforddi diogel yng Nghymru.

**Yn Absennol Dros Dro** – mae hyn yn golygu bod y darpariaethau ystyried canlynol yn gymwys: Mae person sy'n absennol dros dro:

- o garchar neu sefydliad diogel ar gyfer pobl ifanc yn rhywun y dylid ystyried ei fod cael ei gadw yn y carchar am gyfnod yr absenoldeb
- o fangre a gymeradwywyd yn rhywun y dylid ystyried ei fod yn cael ei gadw mewn mangre a gymeradwywyd am gyfnod yr absenoldeb
- o fangreoedd eraill, y mae'n ofynnol i unigolyn fyw ynddynt ar ôl cael mechnïaeth mewn achosion troseddol, yn rhywun y dylid ystyried ei fod yn cael ei gadw yn y fangre mechnïaeth hon am gyfnod yr absenoldeb.

**Awdurdod lleol cartref yng Nghymru** – yr awdurdod lleol yr oedd y person ifanc yn byw yn ei ardal fel arfer cyn cael ei gadw yn y ddalfa.

**Pobl ifanc** – plant a phobl ifanc dan 18 oed.

**Sefydliad Troseddwyr Ifanc** – sefydliadau sy'n cael eu rhedeg gan y gwasanaeth carchardai a'r sector preifat yng Nghymru (Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc). Canolfannau cadw i fechgyn 15-17 oed ydynt.

**YOTs** – Timau Troseddau Ieuenctid, sy'n dimau amlddisgyblaethol a sefydlwyd dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

**Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid** – corff cyhoeddus anadrannol, a sefydlwyd gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae ganddo nifer o swyddogaethau statudol mewn perthynas â'r system cyfiawnder ieuenctid a sefydliadau diogel i droseddwyr ifanc.

## Atodiad 1

### Canllawiau, Codau Ymarfer a Gwybodaeth ychwanegol berthnasol arall

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn darparu darpariaethau i ddiwygio cyfraith gofal cymdeithasol, i wneud darpariaethau ynglŷn â gwella'r canlyniadau llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5664

Mae **Deddf Tai (Cymru) 2014** yn darparu manylion y dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu gwasanaethau digartrefedd sy'n canolbwyntio ar atal, gofynion cofrestru a thrwyddedu newydd ar gyfer landlordiaid sector preifat, pwerau i awdurdodau lleol gynyddu ffioedd y dreth gyngor ar ail gartrefi a gofynion i ddiwallu anghenion llety sipsiwn a theithwyr. Bydd y Ddeddf yn dod i rym ym mis Ebrill 2015.
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=8220

Mae **Deddf Gofal 2014 – Adran 76** Carcharorion a phobl mewn mangreoedd a gymeradwywyd, etc yn amlinellu darpariaethau yn y Ddeddf Gofal sy'n darparu gofal a chymorth i garcharorion mewn sefydliadau diogel yn Lloegr (mae hyn yn cynnwys oedolion mewn mangreoedd a gymeradwywyd a llety mechnïaeth arall, yn ogystal â phobl dros 18 oed mewn sefydliadau troseddwyr ifanc, cartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel).
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/23/contents/enacted

Mae **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010** yn amlinellu trefniadau i helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl trwy:

- wella mynediad at wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol
- gwella cynlluniau gofal a thriniaeth ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

http://llyw.cymru/topics/health/nhswales/healthservice/mental-health-services/measure/?skip=1&lang=cy

Mae **Canllawiau Gweithredu Polisi ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Carcharorion 2014** yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i garcharorion ac yn nodi rhai materion y bydd angen eu trafod.
http://llyw.cymru/topics/health/nhswales/healthservice/mental-health-services/?skip=1&lang=cy

Mae **Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012** yn amlinellu darpariaeth yn ymwneud â chymorth cyfreithiol, mechnïaeth a remand arall; darpariaeth ynglŷn â chyflogi, talu a throsglwyddo pobl sy'n cael eu cadw mewn carchardai a sefydliadau eraill; darpariaeth ynglŷn â hysbysiadau cosb am ymddygiad afreolus a rhybuddion; ac ymysg dyletswyddau eraill, diwygio adran 76 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (hunanamddiffyniad). Mae adran 104 yn nodi y dylai plentyn sydd ar remand mewn llety cadw ieuenctid gael ei drin fel plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod dynodedig.
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/contents/enacted

Mae **Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008** yn amlinellu darpariaeth bellach yn ymwneud â chyfiawnder troseddol (gan gynnwys darpariaeth ynglŷn â'r heddlu) a delio gyda throseddwyr a methdalwyr; darpariaeth bellach ynglŷn â rheoli troseddwyr; diwygio cyfraith droseddol; ac ymysg dyletswyddau eraill, gwneud darpariaeth bellach ar gyfer mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn.
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/4/contents

Mae **Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014** yn ymestyn goruchwyliaeth statudol yng Nghymru a Lloegr i oddeutu 50,000 o droseddwyr â dedfrydau o lai na 12 mis. Bydd y troseddwyr hyn yn treulio eu dedfryd i gyd mewn carchar adsefydlu.
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/11/contents/enacted

**Mynediad at Gyfiawnder –** Llyfr canllaw amlasiantaethol sy'n cefnogi rheolaeth ymatebol a phriodol oedolion ag anabledd dysgu yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2013. Y bwriad yw y bydd yn helpu comisiynwyr, cynllunwyr ac ymarferwyr ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol yng Nghymru i wella darpariaeth gwasanaethau.
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/67512

Mae **Strategaeth Lleihau Aildroseddu Cymru: 2014-2016** yn darparu cyfrwng ar gyfer gwella cydweithredu, gan sicrhau y gall adnoddau gael eu targedu i'r eithaf. Un o amcanion allweddol y Strategaeth yw rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod troseddwyr yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n briodol i'w hanghenion.

Mae **Deddf Plismona a Throsedd 2009** yn ymestyn y mandad i lunio a gweithredu strategaeth i leihau aildroseddu i awdurdodau lleol fel 'awdurdod cyfrifol o fewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol' (CSPs). Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i ardaloedd lleol ddeall proffiliau troseddwyr, y ffyrdd y gall gwasanaethau fynd i'r afael ag anghenion troseddwyr ac, yn hanfodol, lle y dylid targedu adnoddau er mwyn lleihau aildroseddu.

**Gorchymyn Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr 2000**
Ym mis Ebrill 2000, ysgwyddodd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr gyfrifoldeb dros gomisiynu llefydd mewn sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc yng Nghymru a Lloegr, a'u lleoli ar ôl iddynt gael eu rhoi ar remand neu eu dedfrydu gan y llysoedd.

**Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf –** Strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i wella gwasanaethau ar gyfer troseddwyr ifanc neu'r rhai sy'n wynebu risg o droseddu.
https://www.gov.uk/government/publications/youth-justice-strategy-for-wales-children-and-young-people-first

**Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998** – Gofynion y Ddeddf yw y bydd timau troseddau ieuenctid yn cynnwys o leiaf un o bob un o'r canlynol:

**(a)** swyddog bwrdd prawf lleol neu swyddog darparwr gwasanaethau prawf;
**(b)** gweithiwr cymdeithasol awdurdod lleol;
**(c)** swyddog yr heddlu;
**(d**) person a enwebir gan Fwrdd Iechyd Lleol y mae ei ardal yn rhan o ardal yr awdurdod lleol;
**(e)** person a enwebir gan y prif swyddog addysg a benodir gan yr awdurdod lleol.

**Canllawiau ac Egwyddorion ar gyfer Pontio o fod yn Berson Ifanc i fod yn Oedolyn yng Nghymru** – gwella'r ffordd mae timau troseddau ieuenctid a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd.
https://www.gov.uk/government/publications/youth-to-adult-transition-principles-and-guidance-for-wales

**Canllawiau ar y cyd ar iechyd meddwl yn y system cyfiawnder ieuenctid –** Canllawiau gweithredu polisi i fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.
https://www.gov.uk/government/publications/joint-guidance-on-mental-health-in-the-youth-justice-system

**Safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid –** Safonau ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, timau troseddau ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y system gyfiawnder.
https://www.gov.uk/government/publications/national-standards-for-youth-justice-services

## Llwybrau

Mae dau Lwybr Cenedlaethol wedi cael eu datblygu: y naill ar gyfer oedolion mewn sefydliadau diogel yng Nghymru; a'r llall ar gyfer plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae'r llwybrau hyn yn dogfennu siwrne unigolion trwy'r ystâd sefydliadau diogel a'r ffordd y gellir cael mynediad at ofal a chymorth. Mae'r llwybr yn neilltuo cyfrifoldeb i ymarferwyr allweddol pan fo unigolyn, neu rywun ar ei ran, yn codi mater ynglŷn ag angen am ofal a chymorth ac mae'n nodi sut y byddai'r awdurdod lleol, gan weithio gyda'i bartneriaid, yn diwallu unrhyw anghenion gofal a chymorth a adnabuwyd fel a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae **Atodiad 2** yn rhoi manylion y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer gofal a chymorth i oedolion mewn sefydliadau diogel.

Mae **Atodiad 3** yn rhoi manylion y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer gofal a chymorth i blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel.

Mae'r llwybrau cenedlaethol yn sicrhau dull cyson ac effeithiol o ddarparu trefniadau gofal a chymorth ar gyfer y rhai mewn sefydliadau diogel. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r llwybrau hyn, a gweithio gyda'u partneriaid, i ddatblygu a gweithredu eu trefniadau lleol o ran gofal a chymorth.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 sy'n cynnwys rhoi cymorth i unrhyw un sy'n ddigartref neu mewn perygl o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod. Mae hyn yn cynnwys cynnig cymorth i'r rhai mewn sefydliadau diogel o ran cynllunio ar gyfer eu rhyddhau. Mae *Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i blant, pobl ifanc ac oedolion mewn sefydliadau diogel* wedi cael ei ddatblygu i danategu Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r llwybr hwn a'r ddau lwybr a ddatblygwyd i danategu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cael eu croesgyfeirio i sicrhau cydberthynas gadarn ac i roi cymorth i awdurdodau lleol a'u partneriaid gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

**ATODIAD 2**

## Llwybr Gofal a Chymorth Cenedlaethol ar gyfer oedolion mewn sefydliadau diogel

Dylid darllen y llwybr hwn ar y cyd â'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 11, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau atodol a luniwyd i gynorthwyo'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth ar gyfer y rhai mewn sefydliadau diogel.

Dylid darllen y llwybr hwn hefyd ar y cyd â'r cod canllawiau sy'n tanategu Deddf Tai (Cymru) 2014 a'r llwybrau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd i blant, pobl ifanc ac oedolion mewn sefydliadau diogel.

Mae gan oedolion hawliau a hawlogaethau dan y ddwy Ddeddf hon.

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau lleol yng Nghymru; Byrddau Iechyd Lleol; y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), sy'n cynnwys Gwasanaeth Carchardai EM, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru; Comisiynwyr Heddlu yng Nghymru; yr Heddlu; Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM) Cymru; sefydliadau yn y trydydd sector a sefydliadau partner sy'n rhan o gefnogi'r rhai sydd mewn sefydliadau diogel yng Nghymru. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn nodi camau allweddol, a'r rhai sy'n gyfrifol yn ystod pob cam, o ran adnabod, atgyfeirio, asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth oedolion sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau diogel yng Nghymru, ac o ran cynllunio ar gyfer eu rhyddhau, ac adeg eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned. |
| **Camau sy'n ofynnol** | Bod ymarferwyr a rhanddeiliaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn enwedig Rhan 11, a'r dyletswyddau sy'n ddarostyngedig i addasiadau i ddarpariaethau'r Ddeddf mewn perthynas â phobl mewn sefydliadau diogel yn adrannau 185-188<br>http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5664<br>Mae angen darllen Rhan 11 ochr yn ochr â Rhannau eraill o Ddeddf 2014, ond yn enwedig Rhannau 3, 4 a Rhan 6 sy'n nodi'r dyletswyddau sy'n ddarostyngedig i addasiadau yn Rhan 11. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ |

| | |
|---|---|
| **Copïau Ychwanegol** | Mae’r Canllawiau Atodol a’r Llwybrau ar gael o’r Hyb Gwybodaeth a Dysgu ar wefan Cyngor Gofal Cymru yn:<br>http://www.cgcymru.org.uk/y-ddeddf<br>http://www.ccwales.org.uk/the-act |
| **Dogfennau cysylltiedig** | • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Deddf Tai (Cymru) 2014<br>• Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014<br>• Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010<br>• Canllaw i Wella Iechyd, Lles a Gofal Iechyd ar gyfer Pensiynwyr Hŷn 2011<br>• Canllawiau ar Weithredu Polisi Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Garcharorion 2014<br>• Siarad â Fi 2 – Strategaeth a Chynllun Gweithredu Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed<br>• Cyfarwyddiadau’r Gwasanaeth Carchardai: http://www.justice.gov.uk/offenders/psis<br>➢ 15/2015 Gofal Cymdeithasol Oedolion<br>➢ 16/2015 Diogelu Oedolion mewn Carchardai<br>➢ 17/2015 Carcharorion yn cynorthwyo carcharorion eraill |

**Cyflwyniad**

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014 a bydd yn dod i rym yng Nghymru ym mis Ebrill 2016. Mae Deddf 2014 yn canolbwyntio ar lesiant, ar hawliau, ar hawlogaethau, gan rymuso pobl i fod â pherthynas newydd â gwasanaethau cymdeithasol. Mae a wnelo â chefnogi pobl sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol, eu grymuso i gydgynhyrchu datrysiadau gyda phobl eu hunain.

Mae canlyniadau llesiant yn tanategu'r system newydd, y mae ymyrryd yn gynnar ac atal yn ganolog iddi. Bydd y Ddeddf yn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, gan hybu annibyniaeth pobl i roi llais cryfach a mwy o reolaeth iddynt.

Bydd integreiddio a symleiddio'r gyfraith hefyd yn rhoi mwy o gysondeb ac eglurder i'r canlynol:

- pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol;
- eu gofalwyr;
- staff awdurdodau lleol a'r sefydliadau sy'n bartneriaid iddynt;
- y llysoedd a'r farnwriaeth.

Bydd y Ddeddf yn hybu cydraddoldeb, yn gwella ansawdd gwasanaethau ac yn gwella mynediad at yr wybodaeth y mae pobl yn ei chael. Bydd hefyd yn rhoi anogaeth ar gyfer ffocws newydd ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae Rhan 11, adrannau 185-188 yn cynnwys addasiadau i'r dyletswyddau dan Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r bobl hynny a gedwir mewn sefydliadau diogel – oedolion a phlant.

**Y Llwybr Hwn**

Mae'r llwybr hwn wedi cael ei ddatblygu i ddarparu siwrne fesul cam ar gyfer oedolion pan gânt eu cadw mewn sefydliad diogel yng Nghymru ac mae'n nodi'r llu o gyfleoedd i ystyried eu gofal a'u cymorth a gweithredu ar hynny.

Mae angen i'r rhai sy'n darllen y llwybr hwn ddeall nad yw Rhan 11 o'r Ddeddf yn bodoli ar ei phen ei hun, a bod yn rhaid iddi hi, y cod ymarfer a'r canllawiau atodol gael eu darllen ar y cyd â rhannau eraill o'r Ddeddf a'r codau ymarfer perthnasol, yn enwedig Rhan 3 – asesu anghenion, Rhan 4 – diwallu anghenion, a Rhan 6 - plant sy'n derbyn gofal ac yn cael eu lletya. Gellir gweld y dogfennau hynny o fewn Hyb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru.

Mae'r camau yn y siwrne'n bwyntiau ysgogi sy'n cynnig cyfleoedd i staff allweddol sy'n gweithio gyda throseddwyr wirio a oes gan yr oedolyn anghenion gofal a chymorth yn barod a/neu gynllun gofal a chymorth cyfredol; neu a ydynt heb gael eu hadnabod yn flaenorol, a bod ganddynt o bosibl anghenion o'r fath i'w hatgyfeirio ar gyfer asesiad gofal a chymorth.

Mae'r camau yn y siwrne fel a ganlyn:

- Cyn dedfrydu
- Adeg derbyn (ar remand ac ar gyfer y ddedfryd) ar y noson gyntaf, 72 awr, ac yn ystod y cyfnod sefydlu
- Yn y ddalfa
- Y broses o gynllunio ar gyfer ailsefydlu cyn rhyddhau
- O fewn dyddiau i ryddhau
- Adeg rhyddhau
- Ar ôl rhyddhau

**Termau allweddol a ddefnyddir o fewn y llwybr**

| | |
|---|---|
| LAPB | Awdurdod lleol y mae’r carchar wedi’i leoli yn ei ardal |
| LAWP | Awdurdod lleol heb garchar o fewn ei ffiniau |
| ALI Cartref | Awdurdod lleol yr ystyrir bod yr oedolyn fel arfer yn byw yn ei ardal yn awr neu yn y dyfodol os cynllunnir ar gyfer ei ryddhau. |
| WHLA | Awdurdod lleol cartref yng Nghymru ar gyfer unrhyw blant a all fod gan yr oedolyn sydd mewn sefydliad diogel |
| NPS | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| CRCW | Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| PSR | Adroddiad cyn dedfrydu – adroddiad y mae’r Llys yn gofyn amdano gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac sydd wedi’i fwriadu i gynorthwyo’r Llys i bennu’r ddedfryd fwyaf priodol ar gyfer oedolyn. |
| PER | Cofnod Hebrwng i’r Carchar – dogfen ar ffurf copi caled sy’n cyrraedd gyda’r oedolyn pan gaiff ei drosglwyddo i’r sefydliad diogel. Dylai’r holl wybodaeth arall gyrraedd o fewn 24 awr gan gynnwys yr adroddiad cyn dedfrydu. Dylai’r cofnod hebrwng i’r carchar geisio cofnodi unrhyw anghenion gofal a chymorth uniongyrchol a all fod gan yr unigolyn ac a fyddai’n effeithio ar ei 24 awr gyntaf yn y sefydliad diogel. |

**Gofal a chymorth**

Mae’r adran ganlynol yn nodi’r hyn y mae gofal a chymorth yn ei olygu dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a’r broses a ddefnyddir gan awdurdod lleol i asesu anghenion gofal a chymorth rhywun, sut y pennir cymhwystra, a sut y bydd awdurdodau lleol yn diwallu unrhyw anghenion o’r fath.

<u>Asesiad</u>
Mae’n rhaid i awdurdod lleol gynnig asesiad i unrhyw oedolyn lle mae’n ymddangos i’r awdurdod hwnnw y gall fod gan yr oedolyn anghenion am ofal a chymorth.

Mae’n rhaid i awdurdod lleol asesu a oes gan yr oedolyn anghenion am ofal a chymorth ac os felly, beth yw’r anghenion hynny.
Wrth gynnal yr asesiad mae’n rhaid i’r awdurdod lleol weithredu’n gymesur â’r angen ac mae’n rhaid iddo ganolbwyntio ar y canlyniadau y mae’r oedolyn yn dymuno’u cyflawni yn ei fywyd pob dydd ac ystyried i ba raddau y byddai darparu gofal a chymorth,

gwasanaethau ataliol, neu ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn gallu cyfrannu at y canlyniadau hynny. Mae angen i'r asesiad ystyried cyfyngiadau'r sefydliad diogel.

Elfen allweddol o'r asesiad fydd adeiladu ar gryfderau a galluoedd yr unigolyn, trwy fynediad at gymorth priodol y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad diogel, er mwyn galluogi'r unigolyn i gefnogi ei hun yn well tra'i fod yn y sefydliad diogel ac i'w baratoi'n well ar gyfer yr adeg pan gaiff ei ryddhau.

Bydd angen i'r awdurdod lleol gysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill os oes angen asesiadau arbenigol a bydd y rhain yn cael eu hintegreiddio fel rhan o'r cynllun gofal a chymorth os oes angen cynllun. Bydd canlyniad yr asesiad gofal a chymorth yn cael ei rannu gyda'r oedolyn, ei deulu/gofalwyr, staff y sefydliad diogel, ac asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r unigolyn i ddarparu ei ofal a chymorth. Bydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am gael cydsyniad gan yr oedolyn i rannu'r wybodaeth hon yn ystod yr asesiad.

Byddir yn gofyn i'r oedolyn roi ei gydsyniad i rannu gwybodaeth am ei asesiad a chanlyniad ei asesiad gyda phartïon/ sefydliadau eraill at ddiben ei gynorthwyo i ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddilyn y gofynion a nodir yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015, y cod ymarfer ar gyfer Rhan 3 – asesu anghenion, a defnyddio'r Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol. Mae'r rhain ar gael yma:
http://www.cgcymru.org.uk/rheoliadau-a-codau/?force=2

Cymhwystra
Bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a yw unrhyw un o anghenion yr oedolyn yn gymwys, fel a nodir yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015, a'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 4 – diwallu anghenion. Mae'r rhain ar gael yma:
http://www.cgcymru.org.uk/rheoliadau-a-codau/?force=2

Os yw unrhyw un o anghenion yr oedolyn **yn gymwys** yna bydd yr awdurdod lleol yn datblygu cynllun gofal a chymorth i sicrhau bod y cymorth sy'n ofynnol yn cael ei ddarparu. Os **nad** yw unrhyw un o anghenion yr oedolyn yn gymwys mae'n rhaid i'r awdurdod ddal i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, a chyfeirio a darparu mynediad at wasanaethau ataliol i gynorthwyo'r unigolyn a'i atal rhag dirywio ymhellach. Mae'n bwysig cofio nad yw cymhwystra'n golygu bod gan yr unigolyn fynediad at gymorth gwahanol, dim ond bod y drefn ar gyfer darparu cymorth o'r fath yn cael ei rheoli gan yr awdurdod lleol.

Y cynllun gofal a chymorth


Bydd yr awdurdod lleol yn datblygu cynllun gofal a chymorth gyda'r oedolyn, os canfuwyd fod ei anghenion yn gymwys.

Caiff y gofynion ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth eu nodi yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015, a'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 4 – diwallu anghenion. Mae'r rhain ar gael yma: http://www.cgcymru.org.uk/rheoliadau-a-codau/?force=2


Mae'r diagramau canlynol yn amlinellu'r llwybr ar gyfer:

**A: y rhai sy'n mynd i mewn i sefydliad diogel a thra'u bod yn y ddalfa**
**B: wrth iddynt baratoi i gael eu rhyddhau.**

## A: Llwybr Gofal a Chymorth ar gyfer Oedolion mewn sefydliadau diogel



## B: Llwybr Gofal a Chymorth ar gyfer Oedolion mewn sefydliadau diogel



| Cam y Llys/ Cyn Dedfrydu | Sut | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu Swyddog y Llys yn llunio Adroddiad Cyn Dedfrydu. Mae'r Adroddiad Cyn Dedfrydu yn cynnwys gwybodaeth am drefniadau byw'r oedolyn, ei iechyd, y risg o niwed ac aildroseddu yn ogystal ag unrhyw ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>Pan fo'r Adroddiad Cyn Dedfrydu yn cael ei lunio mae'n gyfle i ganfod a oes gan yr oedolyn sy'n disgwyl i gael ei ddedfrydu unrhyw anghenion gofal a chymorth:<br>• Efallai fod anghenion gofal a chymorth yr oedolyn yn cael eu diwallu'n barod yn y gymuned trwy gynllun gofal a chymorth neu drwy wasanaethau llesiant ataliol.<br>• Efallai fod yr oedolyn wedi cael ei asesu'n flaenorol ond bod anghenion o ran gofal a chymorth heb gael eu hadnabod<br>• Efallai nad yw'r oedolyn erioed wedi cael asesiad.<br><br>Dylai'r Adroddiad Cyn Dedfrydu amlygu unrhyw ofal neu gymorth a dderbynnir a, lle y bo'n bosibl, dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gysylltu â'r awdurdod lleol y bu'r oedolyn yn byw yn ei ardal i gael gwybod beth yw'r sefyllfa bresennol.<br><br>Hwn hefyd yw'r cyfle cyntaf i ofyn i bobl 18-24 mlwydd oed a ydynt yn bobl sy'n gadael gofal ac i ddogfennu hyn yn yr Adroddiad Cyn Dedfrydu. Caiff cyfrifoldebau awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl sy'n gadael gofal eu nodi yn Rhan 6 o'r Ddeddf a'r cod ymarfer cysylltiedig.<br><br>Nid oes Adroddiad Cyn Dedfrydu yn cael ei lunio ar gyfer pob troseddwr ond | Dogfen ar ffurf copi caled yw'r Adroddiad Cyn Dedfrydu a fydd yn cynnwys manylion anghenion gofal a chymorth yr oedolyn a'r ffordd y mae'r rhain yn cael eu diwallu, os oeddent yn hysbys cyn hyn.<br><br>Bydd yr Adroddiad Cyn Dedfrydu yn darparu gwybodaeth ar gyfer y llys ac yna'n cael ei drosglwyddo i'r sefydliad diogel gyda'r troseddwr os caiff ei ddedfrydu. | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Swyddog y Llys i lunio Adroddiad Cyn Dedfrydu<br><br>Yr ALl Cartref i gysylltu â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i rannu manylion unrhyw anghenion gofal a chymorth sy'n cael eu diwallu. |

| | | |
|---|---|---|
| lle cânt eu llunio mae gofyniad i lunio'r rhain yn gyflym o fewn y graddfeydd amser a bennir gan y llys. Mewn sefyllfaoedd lle mae anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol y mae'r oedolyn wedi bod yn byw yn ei ardal yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i sicrhau bod yr wybodaeth am yr unigolyn ar gael.<br><br>Dylai awdurdodau lleol ystyried trefnu bod gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ar gael yn y llys gan fod hyn yn cael ei ystyried yn ffordd werthfawr o gefnogi'r rhai sy'n mynd i'r llys, a'u teuluoedd. | | |
| **Ar remand** | **Sut** | **Cyfrifoldeb** |
| Os yw oedolyn yn cael ei roi ar remand gall gael ei dderbyn i'r ddalfa gyda neu heb Adroddiad Cyn Dedfrydu.<br><br>Bydd cyrraedd y sefydliad diogel yn ysgogi cyfle i sgrinio ar gyfer anghenion gofal a chymorth oedolyn yn union yr un ffordd â throseddwyr sydd wedi cael eu dedfrydu. | Bydd oedolion ar remand yn cael eu sgrinio ar gyfer anghenion gofal a chymorth ar yr adeg y cânt eu derbyn yn y sefydliad diogel. | Bydd staff y sefydliad diogel/ gofal iechyd yn sgrinio ar gyfer anghenion gofal a chymorth. Gweler yr adran – adeg derbyn. |
| **Hebrwng oedolion i'r sefydliad diogel** | **Sut** | **Cyfrifoldeb** |
| Pa un a yw ar remand ynteu wedi'i ddedfrydu mae'r oedolyn yn cael ei drosglwyddo wedyn i'r sefydliad diogel trwy'r gwasanaeth hebrwng carcharorion. Bydd y gwasanaeth hebrwng yn rhoi'r Cofnod Hebrwng i'r Carchar i'r staff derbyn wrth drosglwyddo'r unigolyn iddynt, a bydd y staff derbyn yn defnyddio'r Cofnod Hebrwng i'r Carchar i amlygu unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch yr unigolyn; gallai hyn gynnwys unrhyw anghenion gofal a chymorth os yw'r rhain yn flaenoriaeth. | Mae'r Cofnod Hebrwng i'r Carchar yn teithio gyda'r oedolyn ac yn cael ei roi i'r staff derbyn pan fo'r unigolyn yn cyrraedd y sefydliad diogel. | Mae staff y sefydliad diogel yn defnyddio'r Cofnod Hebrwng i'r Carchar i ganfod unrhyw anghenion uniongyrchol, gan gynnwys unrhyw anghenion gofal a chymorth taer. |

<table>
<tr><td>Llwybr digartrefedd i oedolion (cydberthynas)<br><br>CARREG MILLTIR – cyn y ddalfa<br><br>• Cyfle i ystyried anghenion tai y rhai sy'n disgwyl i sefyll eu prawf/ disgwyl i gael eu dedfrydu, ac os yw arhosiad yn y ddalfa yn debygol o fygwth y sefyllfa o ran tai gellir cymryd camau rhesymol ar y cam hwn i atal yr unigolion hyn rhag colli eu llety.<br>•</td><td>Awdurdodau lleol i sicrhau dull integredig gan y gwasanaethau cymdeithasol a chydweithwyr ym maes tai</td><td>ALI Cartref a'r ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal i gydweithio i ddarparu ymateb cyfannol.</td></tr>
<tr><td>Adeg derbyn i'r ddalfa</td><td>Sut</td><td>Cyfrifoldeb</td></tr>
<tr><td>NOSON GYNTAF:<br>Bydd staff y carchar yn cwblhau asesiad Sgrinio ar y Noson Gyntaf a bydd staff gofal iechyd yn cwblhau asesiad Sgrinio Gofal Iechyd Rhagarweiniol ar y diwrnod cyntaf yn y ddalfa.<br><br>Bydd y ddau gyfle sgrinio yma'n galluogi'r rhai sydd wedi'u dedfrydu, a'r rhai sydd ar remand, i gael ystyriaeth i'w hanghenion gofal a chymorth. Bydd yr asesiadau sgrinio hyn yn gyfle i wirio a yw'r oedolyn sy'n mynd i mewn i'r ddalfa:<br>• eisoes wedi cael cynllun gofal a chymorth; neu<br>• yn arddangos anghenion am ofal a chymorth.<br><br>Os yw'r oedolyn eisoes wedi cael cynllun gofal a chymorth cyn iddo fynd i mewn i'r sefydliad diogel, dylai hyn fod yn hysbys yn barod ac wedi'i ddogfennu yn y Cofnod Hebrwng i'r Carchar a/ neu'r Adroddiad Cyn Dedfrydu, er y dylid defnyddio asesiad sgrinio iechyd rheolaidd a/neu asesiad sgrinio yn y ddalfa i gasglu'r wybodaeth hon.</td><td>Awdurdodau lleol i ddarparu set o gwestiynau ysgogi y gall staff y sefydliad diogel / staff gofal iechyd eu defnyddio yn ystod yr asesiadau sgrinio hyn i amlygu'r angen i ofyn am asesiad gofal a chymorth.</td><td>Bydd staff y cytunwyd arnynt yn y sefydliad diogel yn cysylltu â'r ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal os oedd gan oedolyn gynllun gofal a chymorth cyn mynd i mewn i'r ddalfa, os nad oes trefniadau i ddiwallu'r anghenion hyn yn eu lle yn barod.<br><br>Staff y cytunwyd</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| • Os mai dyna yw'r sefyllfa, a bod yr awdurdod lleol heb fod mewn cysylltiad â'r sefydliad diogel cyn i'r oedolyn gyrraedd, yna dylai'r staff a gwblhaodd yr asesiadau sgrinio ar y noson gyntaf drafod a chytuno pa hyn ohonynt fydd yn cysylltu â'r ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal ar y diwrnod gwaith nesaf i drafod sut y gellir cyflawni'r cynllun gofal a chymorth tra bo'r oedolyn yn y ddalfa. Rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda'r sefydliad diogel a'r timau gofal iechyd i ystyried ffyrdd o ddiwallu unrhyw anghenion taer ar gyfer y noson gyntaf.<br><br>Os yw'r oedolyn **heb gynllun gofal a chymorth** cyn ei fod yn mynd i mewn i'r sefydliad diogel, bydd yr asesiadau sgrinio ar y noson gyntaf yn rhoi'r cyfle hwnnw i staff y sefydliad diogel / gofal iechyd sgrinio am unrhyw anghenion gofal a chymorth uniongyrchol, ac os credir bod y rhain yn bodoli bydd staff yn cytuno rhyngddynt pa un ohonynt fydd yn gwneud atgyfeiriad at yr awdurdod lleol ar y diwrnod gwaith nesaf. | | arnynt yn lleol i atgyfeirio oedolyn at yr ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal i gael asesiad gofal a chymorth. |
| **Llwybr digartrefedd ar gyfer oedolion (cydberthynas)**<br><br>**CARREG MILLTIR – wrth dderbyn**<br><br>• Bydd yr Offeryn Sgrinio Sylfaenol yn y Ddalfa - Rhan 1 (o fewn 72 awr) yn nodi unrhyw feysydd risg gan gynnwys risgiau i dai/ llety, i'w gwblhau gan staff y sefydliad diogel – gweler isod<br><br>• Bydd yr Offeryn Sgrinio Sylfaenol yn y Ddalfa – Rhan 2 (o fewn 5 niwrnod) yn cael ei gwblhau gan Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru | Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn cwblhau Rhan 2 o'r Offeryn Sgrinio Sylfaenol yn y Ddalfa ac yn amlygu unrhyw risg i gadw llety. Mae cwblhau hwn yn gyfle pellach i Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ystyried a oes gan yr oedolyn y mae'n ei sgrinio unrhyw anghenion gofal a chymorth ac, os felly, bydd Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn dweud | Yr ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal i gynnal asesiad gofal a chymorth a chysylltu â'r ALI Cartref os yn briodol i ddarparu ymateb cyfannol. |

| | | |
|---|---|---|
| | wrth staff y carchar / staff gofal iechyd fel bod yr atgyfeiriad hwn yn gallu cael ei wneud at yr ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal. | |
| **O FEWN 72 AWR:**<br><br>O fewn 72 awr bydd staff y sefydliad diogel yn cwblhau **Offeryn Sgrinio Sylfaenol yn y Ddalfa** i amlygu unrhyw risgiau uniongyrchol i'r oedolyn yn y ddalfa.<br><br>O fewn 72 awr bydd staff gofal iechyd yn cwblhau **Ail Asesiad Sgrinio Gofal Iechyd.**<br><br>Mae'r ddau asesiad sgrinio yma'n gyfle i asesu a oes gan yr oedolyn unrhyw anghenion gofal a chymorth. Dylid gofyn cwestiynau yn unol â'r protocol y cytunwyd arno'n lleol, er y cytunwyd yn y mwyafrif o achosion mai staff gofal iechyd fydd yn gofyn cwestiynau yn ystod yr ail asesiad sgrinio gofal iechyd i ganfod anghenion gofal a chymorth unigolyn, i benderfynu a ddylid gwneud atgyfeiriad ar gyfer asesiad gofal a chymorth. Os felly, bydd y staff gofal iechyd yn gwneud yr atgyfeiriad at yr ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal a bydd hwn yn cael ei gofnodi ar System 1.<br>Os yw'r oedolyn **eisoes wedi cael cynllun gofal a chymorth** cyn iddo fynd i mewn i'r sefydliad diogel dylai hyn fod yn hysbys yn barod a dylai'r ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal fod wedi gweithredu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Os nad dyma'r sefyllfa, a bod yr awdurdod lleol heb fod mewn cysylltiad yna dylai'r staff, ar ôl cwblhau'r asesiadau sgrinio 72 | Yn dilyn cwblhau'r ail asesiad sgrinio gofal iechyd bydd atgyfeiriad ar gyfer asesiad gofal a chymorth yn cael ei wneud at yr ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal os credir bod gan yr unigolyn anghenion gofal a chymorth.<br><br>Staff y sefydliad diogel/ staff gofal iechyd i gytuno'n lleol pa un ohonynt ddylai wneud yr atgyfeiriad hwn at yr ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn | Protocolau lleol i gael eu sefydlu o ran pa staff y cytunwyd arnynt yn lleol fydd yn gofyn y cwestiynau sgrinio gofal a chymorth a phwy fydd yn gwneud atgyfeiriad at yr ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal ar gyfer asesiad gofal a chymorth os bydd hyn yn ofynnol. Bydd y cytundeb lleol hefyd yn nodi sut i rannu gwybodaeth am unrhyw blant a all fod gan yr oedolyn. |

| | | |
|---|---|---|
| awr, gytuno pa un ohonynt (staff y carchar ynteu'r staff gofal iechyd) fydd yn cysylltu â'r ALl y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal i drafod sut y gellir cyflawni'r cynllun gofal a chymorth tra bo'r oedolyn yn y ddalfa.<br><br>Mae adnabod plant i droseddwyr yn bwysig hefyd er mwyn sicrhau bod anghenion gofal a chymorth y plant hyn/ y teulu yn cael ystyriaeth hefyd. Mae adran 6 – perthnasoedd, ac adran 8 – iechyd a llesiant yn yr Offeryn Sgrinio Sylfaenol yn y Ddalfa yn berthnasol yma. Dylai staff sy'n cwblhau'r asesiad sgrinio gofnodi bodolaeth unrhyw blant a gwneud yr ALl y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal yn ymwybodol o'r amgylchiadau hyn. Bydd yr ALl y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal yn ei dro'n gwneud ei swyddog cyfatebol yn yr awdurdod lleol y mae plentyn/plant y troseddwr yn byw yn ei ardal yn ymwybodol o'r sefyllfa. Gall yr ALl Cartref ystyried a oes gan y plant/ teulu unrhyw anghenion o ran gofal a chymorth.<br><br>[Gall y broses o adnabod plant y troseddwr gael ei chynnal unrhyw bryd yn ystod y llwybr ar gyfer oedolion ond ymddengys mai o fewn 72 awr yw'r amser mwyaf priodol i gofnodi'r wybodaeth hon i ddechrau].<br><br>Ar ôl cael atgyfeiriad o'r sefydliad diogel bydd yr ALl y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal yn cynnal asesiad gofal a chymorth i ganfod a oes gan yr unigolyn dan sylw anghenion gofal a chymorth; ac os felly a yw'r rhain yn bodloni'r meini prawf cymhwystra cenedlaethol. Byddir yn gofyn i'r oedolyn roi ei gydsyniad i rannu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr asesiad.<br><br>Bydd angen i'r rhai sy'n cynnal yr asesiad gofal a chymorth ymgynghori â'r Goruchwylydd Troseddwyr yn y ddalfa a/ neu'r Rheolwr Troseddwyr yn y gymuned i rannu gwybodaeth ac ystyried unrhyw faterion risg o niwed difrifol | ei ardal a hysbysu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ynghylch yr atgyfeiriad hwn.<br><br>Os gwneir atgyfeiriad, a bod plant gan yr oedolyn, dylai'r wybodaeth hon gael ei hamlygu o fewn yr atgyfeiriad er mwyn i'r ALl y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal allu rhannu'r wybodaeth honno gydag awdurdod lleol cartref y plentyn.<br><br>Os na wneir atgyfeiriad ond bod plant i'r oedolyn yn cael eu hadnabod dylid rhannu'r wybodaeth hon â'r ALl y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal er mwyn iddynt allu rhannu'r wybodaeth honno gydag awdurdod lleol cartref y plentyn. | Bydd yr ALl y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal yn rhannu gwybodaeth am unrhyw plant a all fod gan y troseddwr gyda'r ALl cartref priodol. |

| | | |
|---|---|---|
| a allai fod yn berthnasol i asesiad gofal a chymorth.<br><br>Lle y bo'n bosibl, dylai asesiad gofal a chymorth gael ei gynnal ochr yn ochr ag asesiadau iechyd (e.e. dan Ran 1 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010) i hybu integreiddio ac osgoi'r angen i unigolion ailadrodd eu hanghenion iechyd a chymorth wrth sawl gweithiwr proffesiynol gwahanol yn ystod sawl asesiad gwahanol. Bydd cyswllt â'r Uned Rheoli Troseddwyr o fudd o ran rhannu gwybodaeth a chefnogi asesiad cyfannol. | | |
| **O FEWN Y 7 NIWRNOD CYNTAF**: **SEFYDLU**<br><br>Mae'r holl garcharorion yn cyfranogi mewn **cwrs sefydlu** o fewn eu hwythnos gyntaf yn y ddalfa lle maent yn cael gwybodaeth am eu hawliau a'u hawlogaethau tra'u bod yn y ddalfa.<br><br>Bydd adnodd y cwrs sefydlu'n cael ei ehangu ym mhob carchar yng Nghymru i gynnwys modiwl ar y system gofal a chymorth a sut y gall unigolion gael mynediad ati tra'u bod mewn sefydliad diogel, h.y. gwybodaeth ynghylch sut i gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy a pha wasanaethau ataliol/ cymorth sydd ar gael o fewn y carchar a sut i hunanatgyfeirio ar gyfer asesiad gofal a chymorth tra bo'r oedolyn yn y ddalfa. Mae'n rhaid i'r modiwl gynnwys cyfrifoldebau awdurdodau lleol am bobl sy'n gadael gofal hefyd a'i gwneud yn glir wrth gyfranogwyr beth yw eu hawliau a'u hawlogaethau fel pobl sy'n gadael gofal.<br><br>Os ma **dim ond** yn ystod y cwrs sefydlu y caiff anghenion gofal a chymorth eu hadnabod dylai'r oedolyn wneud hunanatgyfeiriad a hwnnw'n cael ei drosglwyddo i'r ALl y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal (trwy law staff y carchar). Gall hunanatgyfeirio fod yn broses syml y cytunir arni rhwng y partneriaid ac y rhoddir cyhoeddusrwydd iddi'n lleol. Dylai'r broses fod yn | Caiff y **cwrs sefydlu** ei reoli gan staff y sefydliad diogel ond bydd yr ALl y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal yn darparu deunydd i gefnogi modiwl newydd a fydd yn egluro'r dyletswyddau dan Ddeddf 2014 mewn perthynas â gofal a chymorth.<br><br>Gall oedolion hunanatgyfeirio ar gyfer asesiad gofal a chymorth unrhyw bryd. | Oedolyn/ staff y sefydliad diogel/ Yr ALl y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal |

| | | |
|---|---|---|
| hygyrch ac ystyried lefelau llythrennedd cyffredinol o fewn poblogaeth y carchar. Gellir cynnwys ffurflen hunanatgyfeirio syml ym mhecyn y cwrs sefydlu.<br><br>Pan fydd yn cael yr atgyfeiriad bydd yr ALl y mae'r carchar wedi'i leoli o fewn ei ardal yn cynnal asesiad gofal a chymorth i ganfod a oes anghenion gofal a chymorth ac os felly a yw'r rhain yn gymwys wrth ystyried y meini prawf cymhwystra.<br><br>Os caiff yr oedolyn ei ddedfrydu dylai'r ALl y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal ymgynghori â'r Goruchwylydd Troseddwyr yn y ddalfa a/neu'r Rheolwr Troseddwyr yn y gymuned i sicrhau y cwblheir asesiad cyfannol sy'n ystyried unrhyw faterion perthnasol o ran risg o niwed difrifol. | | |
| **Yn y ddalfa -** hygludedd a threfniadau trawsffiniol | **Sut** | **Cyfrifoldeb** |
| Pan fo oedolyn mewn un sefydliad diogel yn cael ei drosglwyddo i un arall (yn aml ar fyr rybudd) gall fod ganddo anghenion gofal a chymorth y mae angen eu cefnogi yn y sefydliad newydd.<br><br>Caiff hygludedd a threfniadau trawsffiniol eu nodi yn y cod ymarfer ar Ran 11 a chaiff rôl y llywodraethwr a/neu ei gynrychiolydd ei nodi yn PS1 15/2015 Gofal Cymdeithasol Oedolion.<br><br>*Pan fydd oedolyn mewn sefydliad diogel yn croesi ffin awdurdod lleol (nail ai yng Nghymru neu dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr), o ganlyniad i drosglwyddiad rhwng carchardai yn ystod ei amser yn y ddalfa neu wrth adsefydlu ar ôl cael ei ryddhau, mae'n bwysig bod y gofal a'r cymorth yn parhau.*<br><br>*Ar ôl cael gwybod gan y sefydliad diogel am y trosglwyddiad neu'r rhyddhau* | Hygludedd a threfniadau trawsffiniol i gael eu mabwysiadu | Staff y sefydliad diogel/ Yr ALl y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal |

| | | |
|---|---|---|
| *sydd ar fin digwydd, bydd yr awdurdod lleol sy’n gyfrifol am ofal a chymorth yr unigolyn yn ystod ei amser yn y ddalfa (yr awdurdod anfon) yn gyfrifol am gysylltu â’r awdurdod lleol y bydd yr unigolyn yn adleoli iddo (yr awdurdod derbyn) cyn gynted â phosibl. Bydd angen i’r ddau awdurdod weithio gyda’i gilydd a rhannu gwybodaeth briodol i sicrhau bod y gofal a’r cymorth yn parhau, hyd nes y bydd yr awdurdod derbyn yn cynnal ailasesiad o anghenion gofal a chymorth yr unigolyn,*<br><br>*Mae’r trefniadau hyn yn cael eu cefnogi gan egwyddorion parhad gofal trawsffiniol yn y Deyrnas Unedig fel y’u hamlinellir yn y cod ymarfer ar gyfer Rhan 4 o’r Ddeddf – Atodiad 2, a bydd cyfrifoldebau’r gwasanaeth carchardai o dan amgylchiadau o’r fath yn cael eu hegluro mewn gwelliant PSI 15/2015 Gofal Cymdeithasol Oedolion.* | | |
| **6 Mis cyn rhyddhau** | **Sut** | **Cyfrifoldeb** |
| Dylai troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA gael eu hatgyfeirio at y broses MAPPA 6 mis cyn eu rhyddhau.<br><br>Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gydweithredu â MAPPA ac felly byddai disgwyl i’r unigolion sy’n gyfrifol am asesu’r anghenion gofal a chymorth a datblygu cynllun gofal a chymorth, os bydd un yn briodol, wneud hynny gan ymgynghori â MAPPA mewn achosion perthnasol, gan ystyried y cynllun rheoli risgiau amlasiantaethol.<br><br>Mae hyn yn arbennig o bwysig i oedolion sy’n dod i sylw fel oedolion risg uchel neu risg uchel iawn o niwed difrifol gan y byddai angen i’r risg sy’n gysylltiedig â hwy gael ei ystyried mewn unrhyw gynllun gofal a chymorth, i sicrhau bod y risg yn gallu cael ei reoli’n briodol. | | Yr ALI y mae’r carchar wedi’i leoli yn ei ardal/MAPPA |

| Gwaith 12 wythnos cyn rhyddhau | Sut | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| 12 wythnos cyn rhyddhau bydd y trefniadau *Trwy'r Gât* yn golygu y bydd oedolyn yn trosglwyddo i'w garchar ailgartrefu (carchar o fewn yr ardal awdurdod lleol y bydd yn ailsefydlu ynddi pan fydd yn cael ei ryddhau, neu mor agos ati â phosibl).<br><br>Bydd Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn adolygu cynllun ailsefydlu'r oedolyn 12 wythnos cyn ei ryddhau, gan gynnwys unrhyw anghenion o ran llety. Bydd yr adolygiad hwn yn ysgogi cyfle i Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ystyried anghenion gofal a chymorth yr unigolyn pan fydd yn cael ei ryddhau, sy'n arbennig o debygol os oedd gan yr oedolyn gynllun gofal a chymorth tra'r oedd yn y ddalfa.<br><br>Caiff hygludedd a threfniadau trawsffiniol eu nodi yn y cod ymarfer ar gyfer Rhan 11 a chaiff rôl y llywodraethwr a/neu ei gynrychiolydd ei nodi yn PS1 15/2015 Gofal Cymdeithasol Oedolion. | Y sefydliad diogel i gysylltu â'r ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal, a fydd yn ei dro'n cysylltu â'r ALI Cartref i drefnu i gyflawni'r cynllun gofal a chymorth pan fydd yr unigolyn yn cael ei ryddhau nes gellir cwblhau ailasesiad. | Y sefydliad diogel/ yr ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal/yr ALI Cartref |
| Os na fu gan oedolyn gynllun gofal a chymorth tra'r oedd yn y ddalfa yna bydd yr adolygiad o'r cynllun ailsefydlu'n dal i roi cyfle i Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ofyn am asesiad gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn pan fydd yn cael ei ryddhau.<br><br>Os yw'r oedolyn yn debygol o ddod yn ofalwr, neu o barhau â dyletswyddau gofalu pan fydd yn cael ei ryddhau o'r ddalfa, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried ei anghenion cymorth.<br><br>Dylai oedolion gael eu hysbysu ynghylch y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy a sut i gysylltu â'r gwasanaeth o fewn yr ardal y byddant yn ailsefydlu ynddi. Dylai fod gan oedolion ddull o gysylltu â'r gwasanaeth hwn naill ai trwy hunanatgyfeiriad cyn neu ar ôl rhyddhau, neu ddefnyddio | Gall Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ofyn am asesiad gofal a chymorth ar gyfer yr oedolyn gan yr ALI Cartref, cyn gynted â bod yr ardal ailsefydlu'n hysbys. | Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru/ yr ALI Cartref |

| | | |
|---|---|---|
| atgyfeiriad gan staff arall sy'n gweithio gyda hwy cyn iddynt gael eu rhyddhau. Y bwriad yw rhoi anogaeth i fod yn rhagweithiol wrth gynllunio ar gyfer eu hailsefydlu ac i awdurdodau lleol fod yn fwy rhagweithiol wrth ystyried eu hanghenion.<br><br>Os oedd yr oedolyn dan ofal y Tîm mewnofal Iechyd Meddwl Cymunedol, byddai trefniadau'n cael eu gwneud i drosglwyddo'r oedolyn i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol sy'n gweithio yn y gymuned. | | |
| **Llwybr digartrefedd ar gyfer oedolion (cydberthynas)**<br><br>**CARREG FILLTIR – 12 wythnos cyn rhyddhau**<br>• Mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru adolygu cynllun ailsefydlu unigol y carcharor 12 wythnos cyn ei ryddhau a fyddai hefyd yn golygu adolygu anghenion y carcharor o ran llety. | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i adolygu anghenion tai a gwneud atgyfeiriad at yr ALI Cartref fel y bo angen. | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| Staff gofal iechyd i hwyluso'r broses o (ail)gofrestru gyda gwasanaethau iechyd a/neu gael mynediad at wasanaethau iechyd megis y feddygfa deulu leol a thimau iechyd meddwl cymunedol i helpu i hwyluso darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig.<br><br>Mae hyn yn gyfle pellach i ystyried anghenion gofal a chymorth oedolyn, boed er mwyn mynd i'r afael â'i anghenion tra'i fod yn y ddalfa neu i ofyn am asesiad gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn pan gaiff ei ryddhau.<br><br>Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru fydd prif gydgysylltydd cynllun ailsefydlu'r unigolyn. Mae trefniadau ailsefydlu ffurfiol *Through the Gate* yn rhoi cyfle delfrydol i awdurdodau lleol gydweithio gyda'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol, a lle bo'n briodol y Gwasanaeth Prawf | Gall staff gofal iechyd atgyfeirio at yr ALI y mae'r carchar wedi'i leoli yn ei ardal ar gyfer asesiad o'r anghenion gofal a chymorth tra bo'r unigolyn yn y ddalfa.<br><br>Staff gofal iechyd i atgyfeirio at y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru | Staff gofal iechyd/ Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Cenedlaethol, i ystyried unrhyw anghenion gofal a chymorth a chynllunio ar gyfer rhyddhau. | i wneud atgyfeiriad at yr ALl Cartref ar gyfer asesiad gofal a chymorth ar ôl rhyddhau. | |
| **Llwybr digartrefedd ar gyfer oedolion (cydberthynas)**<br><br>**CARREG FILLTIR – 66 diwrnod cyn rhyddhau**<br><br>• Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru i wneud adolygiad beirniadol o lety ac os yw’r sefyllfa heb ei datrys, byddant yn gwneud atgyfeiriad at yr awdurdod lleol perthnasol i ysgogi asesiad tai dan A62 o’r Ddeddf Tai (Cymru). Bydd yr atgyfeiriad hwn yn defnyddio’r Ffurflen Gais Anghenion Tai Carcharor. | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru i wneud atgyfeiriad ar gyfer Asesiad Tai | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| **7 niwrnod cyn rhyddhau** | **Sut** | **Cyfrifoldeb** |
| Os oes **cynllun gofal a chymorth eisoes yn ei le** ar gyfer yr unigolyn mae’n rhaid bod yr ALl y mae’r carchar wedi’i leoli yn ei ardal wedi cysylltu â’r ALl Cartref i anfon copi o’r cynllun gofal a chymorth atynt cyn y dyddiad rhyddhau / trosglwyddo.<br><br>Mae’n rhaid i’r ALl Cartref gytuno sut y bydd yr anghenion hyn yn cael eu diwallu pan fydd yr unigolyn yn cael ei ryddhau a/neu i gynnal ei asesiad ei hun o anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Dylai hyn fod wedi cael ei ysgogi 12 wythnos cyn iddo gael ei ryddhau.<br><br>Os nad oes cynllun gofal a chymorth yn bodoli ond bod naill ai’r oedolyn ei hun, neu’r rhai sy’n gweithio gydag ef ar gynllunio ar gyfer ailsefydlu, yn | | |

| | | |
|---|---|---|
| credu y bydd anghenion gofal a chymorth pan fydd yn cael ei ryddhau, gellir gwneud hunanatgyfeiriad neu atgyfeiriad gan ymarferwyr at yr ALI Cartref lle mae'r oedolyn yn bwriadu ailsefydlu. Bydd yr ALI Cartref yn trefnu bod asesiad gofal a chymorth yn cael ei gwblhau.<br><br>Y darparwyr gofal iechyd sy'n gyfrifol am gynllunio gofal parhaus ar gyfer gofal iechyd oedolion. | | |
| **Llwybr digartrefedd ar gyfer oedolion (cydberthynas)**<br><br>**CARREG FILLTIR – 7 niwrnod cyn rhyddhau**<br><br>• Adolygu pa un a oes llety addas ar gael pan fydd yn cael ei ryddhau; os nad oes, ystyried statws yr ymgeisydd o ran bod ag angen blaenoriaethol i ddarparu llety interim pan fydd yn cael ei ryddhau. | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru i gysylltu â Gwasanaethau Tai'r ALI Cartref i gadarnhau'r trefniadau | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru/ yr ALI Cartref |
| **Y diwrnod rhyddhau** | **Sut** | **Cyfrifoldeb** |
| Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru i oruchwylio bod yr ailsefydlu cychwynnol yn digwydd ar y diwrnod rhyddhau a chydgysylltu'r asiantaethau sy'n rhoi cymorth i sicrhau bod materion yn cael eu datrys yn gyflym ac yn bragmatig.<br><br>Lle y bo'n briodol, efallai y bydd asesiad gofal a chymorth wedi cael ei gwblhau'n barod a phenderfyniad wedi cael ei wneud ar ôl ystyried a yw anghenion yr oedolyn yn gymwys ynteu'n anghymwys. | Bydd yr ALI Cartref eisoes wedi cwblhau asesiad gofal a chymorth cyn i'r oedolyn gael ei ryddhau neu bydd yn ceisio gwneud hynny mor gynnar â phosibl ar ôl iddo gael ei ryddhau. | Yr ALI Cartref/ Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cenedlaethol Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Os yw unrhyw anghenion gofal a chymorth **yn gymwys** bydd angen cynllun gofal a chymorth. Bydd hwn yn dogfennu pa ofal a chymorth fydd yn cael eu darparu ar gyfer y troseddwr sy'n oedolyn yn y gymuned a chan bwy. Dylai fod trafodaeth ac ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn y gymuned a/neu yn y ddalfa i sicrhau bod asesiad cyfannol yn cael ei gwblhau ac y bydd yn ystyried unrhyw faterion perthnasol o ran risg o niwed difrifol.<br><br>Ar gyfer unrhyw anghenion o ran gofal a chymorth yr ystyrir **nad ydynt yn gymwys** mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddal i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a gwasanaethau ataliol i gynorthwyo'r oedolyn ac i'w atal rhag dirywio ymhellach. Elfen allweddol o'r asesiad yw adeiladu ar gryfderau a galluoedd yr unigolyn ei hun trwy fynediad at rwydweithiau cymorth presennol neu fudiadau yn y trydydd sector sy'n gweithio gyda'r unigolyn yn awr ac unwaith y bydd yn cael ei ryddhau. Lle nad yw proses ryddhau wedi'i chynllunio wedi caniatáu i asesiad gofal a chymorth gael ei gwblhau cyn rhyddhau, dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru atgyfeirio at yr ALl Cartref er mwyn i asesiad gofal a chymorth gael ei gynnal lle maent yn credu y gall fod gan yr oedolyn anghenion gofal a chymorth cyn gynted â phosibl wedi iddo gael ei ryddhau. | Mae'r diwrnod rhyddhau'n gyfle pellach i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ofyn am asesiad gofal a chymorth gan yr ALl Cartref os ydynt yn credu bod gan oedolyn sy'n cael ei ryddhau anghenion gofal a chymorth. | |
| **Llwybr digartrefedd ar gyfer oedolion (cydberthynas)**<br><br>**CARREG FILLTIR – Y diwrnod rhyddhau**<br><br>• Gall yr ALl Cartref barhau i ddarparu dyletswyddau atal a dyletswyddau lliniaru dan y Ddeddf Tai os na ddaethpwyd o hyd i unrhyw lety cyn rhyddhau'r unigolyn, ac<br>• Os oes rheswm dros gredu bod yr oedolyn mewn un o'r categorïau angen blaenoriaethol mae gan yr awdurdod ddyletswydd i ddarparu | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru/<br>Yr ALl Cartref |

| | | |
|---|---|---|
| llety interim pan fydd yn cael ei ryddhau. | | |
| **Ar ôl rhyddhau** | **Sut** | **Cyfrifoldeb** |
| Gall anghenion gofal a chymorth ddatblygu unrhyw bryd a gall oedolyn elwa o gael asesiad gofal a chymorth unwaith y mae wedi ailsefydlu yn y gymuned, hyd yn oed os na fu angen gofal a chymorth arno yn y gorffennol.<br><br>Wrth oruchwylio'r oedolyn dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru barhau i ystyried anghenion yr oedolyn am ofal a chymorth ac atgyfeirio'r troseddwr sy'n oedolyn at yr ALI Cartref i gael asesiad gofal a chymorth os yw'n credu bod gan yr oedolyn anghenion gofal a chymorth.<br><br>Dylid hysbysu'r oedolyn y gall hunanatgyfeirio at y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy yn y gymuned a dylid rhoi rhif cyswllt iddo. | Bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn parhau i ystyried anghenion yr oedolyn tra bo'r oedolyn dan oruchwyliaeth. Gall y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru wneud yr atgyfeiriad at yr ALI Cartref ar ran yr oedolyn, neu gall yr oedolyn hunanatgyfeirio ar gyfer asesiad gofal a chymorth unrhyw bryd. | Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru/ Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ Yr ALI Cartref |

**ATODIAD 3**

## Llwybr Gofal a Chymorth Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc mewn sefydliadau diogel

Dylid darllen y llwybr hwn ar y cyd â'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 11, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau atodol a luniwyd i gynorthwyo'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth ar gyfer y rhai sydd mewn sefydliadau diogel.

Dylid darllen y llwybr hwn hefyd ar y cyd â'r canllawiau statudol sy'n tanategu Deddf Tai (Cymru) 2014 a'r llwybrau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd i blant, pobl ifanc ac oedolion mewn sefydliadau diogel.

Mae gan blant a phobl ifanc hawliau a hawlogaethau dan y ddwy Ddeddf hon.

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau lleol yng Nghymru; Byrddau Iechyd Lleol; y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), sy'n cynnwys Gwasanaeth Carchardai EM, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru; Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru; yr Heddlu; Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM) Cymru; y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) y Parc; Cartref Plant Diogel (SCH) Hillside; y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a sefydliadau yn y trydydd sector a sefydliadau partner sy'n rhan o gefnogi'r rhai sydd mewn sefydliadau diogel yng Nghymru |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn nodi camau allweddol, a'r rhai sy'n gyfrifol yn ystod pob cam, o ran adnabod, atgyfeirio, asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth pobl ifanc sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau diogel yng Nghymru, ac o ran cynllunio ar gyfer eu rhyddhau, ac adeg eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned. |
| **Camau sy'n ofynnol** | Bod ymarferwyr a rhanddeiliaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn enwedig Rhan 11, a'r dyletswyddau sy'n ddarostyngedig i addasiadau i ddarpariaethau'r Ddeddf mewn perthynas â phobl mewn sefydliadau diogel yn adrannau 185-188 http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5664 |

| | |
|---|---|
| | Mae angen darllen Rhan 11 ochr yn ochr â Rhannau eraill o Ddeddf 2014, ond yn enwedig Rhannau 3, 4 a Rhan 6 sy'n nodi'r dyletswyddau sy'n ddarostyngedig i addasiadau yn Rhan 11. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ |
| **Copïau Ychwanegol** | Mae'r Canllawiau Atodol a'r Llwybrau ar gael o'r Hyb Gwybodaeth a Dysgu ar wefan Cyngor Gofal Cymru yn:<br>http://www.cgcymru.org.uk/y-ddeddf<br>http://www.ccwales.org.uk/the-act |
| **Dogfennau cysylltiedig** | • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Deddf Tai (Cymru) 2014<br>• Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014<br>• Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010<br>• Cod Ymarfer ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012<br>• Dyfarniad Southwark 2009<br>• Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid 2013 |

## Cyflwyniad

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014 a bydd yn dod i rym yng Nghymru ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar lesiant, ar hawliau, ar hawlogaethau, ar rymuso pobl i fod â pherthynas newydd â gwasanaethau cymdeithasol. Mae a wnelo â chefnogi pobl sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol, gan eu grymuso i gydgynhyrchu datrysiadau gyda phobl eu hunain.

Mae canlyniadau llesiant yn tanategu'r system newydd, y mae ymyrryd yn gynnar ac atal yn ganolog iddi. Bydd y Ddeddf yn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, gan hybu annibyniaeth pobl i roi llais cryfach a mwy o reolaeth iddynt.

Bydd integreiddio a symleiddio'r gyfraith hefyd yn rhoi mwy o gysondeb ac eglurder i'r canlynol:

- pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol;
- eu gofalwyr;
- staff awdurdodau lleol a'r sefydliadau sy'n bartneriaid iddynt;
- y llysoedd a'r farnwriaeth.

Bydd y Ddeddf yn hybu cydraddoldeb, yn gwella ansawdd gwasanaethau ac yn gwella mynediad at yr wybodaeth y mae pobl yn ei chael. Bydd hefyd yn rhoi anogaeth ar gyfer ffocws newydd ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae Rhan 11, adrannau 185-188 yn cynnwys addasiadau i'r dyletswyddau dan Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r bobl hynny a gedwir mewn sefydliadau diogel[14] – oedolion a phlant.

[14] Mae sefydliadau diogel yn derm generig a ddefnyddir i ddisgrifio gwahanol fathau o ganolfannau cadw ar gyfer plant ac oedolion.

**Y Llwybr Hwn**

Mae'r llwybr hwn wedi cael ei ddatblygu i ddarparu siwrne fesul cam ar gyfer plant a phobl ifanc pan gânt eu cadw mewn sefydliad diogel yng Nghymru ac mae'n nodi'r llu o gyfleoedd i ystyried eu gofal a'u cymorth a gweithredu ar hynny.

Mae angen i'r rhai sy'n darllen y llwybr hwn ddeall nad yw Rhan 11 o'r Ddeddf yn bodoli ar ei phen ei hun, a bod yn rhaid iddi hi, y cod ymarfer a'r canllawiau atodol gael eu darllen ar y cyd â rhannau eraill o'r Ddeddf a'r codau ymarfer perthnasol, yn enwedig Rhan 3 – asesu anghenion, Rhan 4 – diwallu anghenion, a Rhan 6 – plant sy'n derbyn gofal ac yn cael eu lletya. Gellir gweld y dogfennau hynny o fewn Hyb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru.

Mae'r camau yn y siwrne'n bwyntiau ysgogi (a fapiwyd yn erbyn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid)[15] sy'n cynnig cyfleoedd i staff allweddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wirio a oes ganddynt anghenion gofal a chymorth yn barod a/neu gynllun gofal a chymorth cyfredol; ynteu a ydynt heb gael eu hadnabod yn flaenorol, a bod ganddynt o bosibl anghenion o'r fath i'w hatgyfeirio ar gyfer asesiad gofal a chymorth.

Mae'r camau yn y siwrne fel a ganlyn: Yr amserlen ar gyfer asesiadau gofal a chymorth:

- Cyn dedfrydu
- Adeg derbyn (ar remand ac ar gyfer y ddedfryd)
- Yn y ddalfa
- Y broses o gynllunio ar gyfer ailsefydlu cyn rhyddhau
- O fewn dyddiau i ryddhau
- Adeg rhyddhau
- Ar ôl rhyddhau

[15] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2013) Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, Llundain: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, o Safon Genedlaethol 9 Cynllunio a Chyflawni Ymyriadau yn y Ddalfa ac Ailsefydlu i'r Gymuned (gan gynnwys Gorchmynion Cadw Sifil) yn enwedig.

**Termau allweddol a ddefnyddir o fewn y llwybr**

| | |
|---|---|
| YOT | Timau Troseddau Ieuenctid |
| WHLA | Awdurdod lleol cartref yng Nghymru |
| YP | Person ifanc |
| YJB | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| NS | Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid |
| Asset/Asset Plus | Offeryn asesu a gymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac a ddefnyddir gan Dimau Troseddwyr Ifanc ledled Cymru a Lloegr |
| PSR | Adroddiad cyn dedfrydu – caiff ei lunio gan Dimau Troseddau Ieuenctid yn barod i'r llys benderfynu ynghylch y ffordd fwyaf priodol o ymdrin â'r plentyn neu'r person ifanc. |
| Cynllun Dedfryd | Mae hwn yn nodi sut y bydd y person ifanc yn cael ei gefnogi trwy gydol ei ddedfryd mewn canolfan gadw a'i broses o ailsefydlu yn y gymuned a dylai gael ei oleuo gan wybodaeth o'r asesiad cyfiawnder ieuenctid. |

**Gofal a chymorth**

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r hyn y mae gofal a chymorth yn ei olygu dan y Ddeddf a'r broses a ddefnyddir gan awdurdod lleol i asesu anghenion gofal a chymorth rhywun, sut y pennir cymhwystra, a sut y bydd awdurdodau lleol yn diwallu unrhyw anghenion o'r fath.

<u>Yr asesiad</u>
Mae'n rhaid i awdurdod lleol gynnig asesiad i unrhyw blentyn lle mae'n ymddangos i'r awdurdod hwnnw y gall fod gan y plentyn anghenion am ofal a chymorth yn ychwanegol at, neu yn lle'r gofal a'r cymorth a ddarperir gan deulu'r plentyn.

Mae'n rhaid i awdurdod lleol asesu a oes gan blentyn anghenion am ofal a chymorth ac os felly, beth yw'r anghenion hynny. Wrth gynnal yr asesiad mae'n rhaid i'r awdurdod lleol weithredu'n gymesur â'r angen ond asesu anghenion datblygiadol y plentyn, a cheisio adnabod y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno'u cyflawni (i'r graddau y mae'n ystyried bod hynny'n briodol gan ystyried

oedran a lefel dealltwriaeth y plentyn), a'r canlyniadau y mae'r bobl â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn yn dymuno'u cyflawni mewn perthynas â'r plentyn (i'r graddau y mae'n ystyried bod hynny'n briodol gan ystyried yr angen i hybu llesiant y plentyn). Mae angen i'r asesiad ystyried cyfyngiadau'r sefydliad diogel. Mae'n rhaid ystyried i ba raddau y byddai darparu gofal a chymorth, gwasanaethau ataliol, neu ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn gallu cyfrannu at y canlyniadau hynny. Elfen allweddol o'r asesiad fydd adeiladu ar gryfderau a galluoedd pobl ifanc, trwy fynediad at gymorth priodol y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad diogel, er mwyn galluogi'r person ifanc i gefnogi ei hun yn well tra'i fod yn y sefydliad diogel ac i'w baratoi'n well ar gyfer yr adeg pan gaiff ei ryddhau.

Bydd angen i'r awdurdod lleol gysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill os oes angen asesiadau arbenigol a bydd y rhain yn cael eu hintegreiddio fel rhan o'r cynllun gofal a chymorth os oes angen cynllun. Bydd canlyniad yr asesiad gofal a chymorth yn cael ei rannu gyda'r plentyn, ei deulu/gofalwyr, staff y sefydliad diogel, ac asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn i ddarparu ei ofal a chymorth. Bydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am gael cydsyniad gan y person ifanc i rannu'r wybodaeth hon yn ystod yr asesiad.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddilyn y gofynion a nodir yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015, y cod ymarfer ar gyfer Rhan 3 – asesu anghenion, a defnyddio'r Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol. Mae'r rhain ar gael yma: http://www.cgcymru.org.uk/rheoliadau-a-codau/?force=2

Cymhwystra

Bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a yw unrhyw un o anghenion y plentyn yn gymwys, fel a nodir yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015, a'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 4 – diwallu anghenion. Mae'r rhain ar gael yma: http://www.cgcymru.org.uk/rheoliadau-a-codau/?force=2

Os yw unrhyw un o anghenion y plentyn **yn gymwys** yna bydd yr awdurdod lleol yn datblygu cynllun gofal a chymorth i sicrhau bod y cymorth sy'n ofynnol yn cael ei ddarparu. Os **nad** yw unrhyw un o anghenion y plentyn yn gymwys mae'n rhaid i'r awdurdod ddal i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, a chyfeirio a darparu mynediad at wasanaethau ataliol i gynorthwyo'r person ifanc a'i atal rhag dirywio ymhellach. Mae'n bwysig cofio nad yw cymhwystra'n golygu bod gan y person ifanc fynediad at wasanaethau/ cymorth gwahanol, dim ond bod y drefn ar gyfer darparu gwasanaethau/ cymorth o'r fath yn cael ei rheoli gan yr awdurdod lleol.

Y cynllun gofal a chymorth


Bydd yr awdurdod lleol yn datblygu cynllun gofal a chymorth gyda’r plentyn, os canfuwyd fod ei anghenion yn gymwys.

Caiff y gofynion ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth eu nodi yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015, a’r cod ymarfer ar gyfer Rhan 4 – diwallu anghenion. Mae’r rhain ar gael yma:
http://www.cgcymru.org.uk/rheoliadau-a-codau/?force=2


Mae’r diagramau canlynol yn amlinellu’r llwybr ar gyfer:

**A:** **y rhai sy’n mynd i mewn i sefydliad diogel a thra’u bod yn y ddalfa**
**B:** **wrth iddynt baratoi i gael eu rhyddhau.**

# A: Llwybr Gofal a Chymorth ar gyfer Oedolion mewn sefydliadau diogel



# B: Llwybr Gofal a Chymorth ar gyfer Pobl Ifanc mewn sefydliadau diogel



**The national pathway for children and young people**

| Cam y Llys/ Cyn Dedfrydu | Sut | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Mae staff y Tîm Troseddau Ieuenctid yn cwblhau Adroddiad Cyn Dedfrydu, yn seiliedig ar asesiad Asset/Asset Plus, cyn dedfrydu. Mae'r Adroddiad Cyn Dedfrydu yn cynnwys gwybodaeth am drefniadau byw'r plentyn, ei addysg, ei iechyd yn ogystal ag unrhyw ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>Pan fo'r Adroddiad Cyn Dedfrydu yn cael ei lunio mae'n gyfle i ganfod a oes gan y plentyn/ person ifanc sy'n disgwyl i sefyll ei brawf a/ neu'n disgwyl i gael ei ddedfrydu unrhyw anghenion gofal a chymorth.<br>• Efallai fod anghenion gofal a chymorth y plentyn yn cael eu diwallu'n barod yn y gymuned trwy gynllun gofal a chymorth neu drwy wasanaethau llesiant ataliol.<br>• Efallai fod y plentyn wedi cael ei asesu'n flaenorol ond bod anghenion gofal a chymorth heb gael eu hadnabod<br>• Efallai nad yw'r plentyn erioed wedi cael asesiad<br><br>Dylai'r Adroddiad Cyn Dedfrydu amlygu unrhyw ofal a chymorth y mae'r plentyn yn ei gael a bydd angen i'r Tîm Troseddau Ieuenctid gysylltu â'r awdurdod lleol cartref yng Nghymru i gael gwybod beth yw'r sefyllfa bresennol.<br><br>Caiff Adroddiadau Cyn Dedfrydu eu llunio o fewn graddfeydd amser y cytunwyd arnynt gan y llys. Mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru'n gweithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid i sicrhau bod yr wybodaeth am anghenion gofal a chymorth y plentyn ar gael. | Bydd yr Adroddiad Cyn Dedfrydu yn cynnwys manylion anghenion gofal a chymorth y plentyn a'r ffordd y mae'r rhain yn cael eu diwallu, os oeddent yn hysbys yn flaenorol. | Tîm Troseddau Ieuenctid i gwblhau Adroddiad Cyn Dedfrydu<br><br>Awdurdod Lleol Cartref yng Nghymru i gynnal cyswllt â'r Tîm Troseddau Ieuenctid i hysbysu ynghylch y sefyllfa bresennol o ran gofal a chymorth |

| | | |
|---|---|---|
| Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn gyfrifol am anfon gwybodaeth leoli at wasanaeth lleoli'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, o leiaf 24 awr cyn dedfrydu. Os caiff y plentyn ei ddedfrydu, mae'n rhaid i Dimau Troseddau Ieuenctid anfon yr Adroddiad Cyn Dedfrydu a'r holl wybodaeth mewn perthynas â chyfiawnder ieuenctid ac asesu risgiau a hanes addysgol at wasanaeth lleoli'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o fewn 24 awr i ddedfrydu'r plentyn (NS 9.1). | Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn lleoli pobl ifanc yn ôl ei brotocol lleoli[16] | Y Tîm Troseddau Ieuenctid yn anfon gwybodaeth leoli/ Adroddiad Cyn Dedfrydu at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| Os caiff y plentyn ei ddedfrydu, mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn gyfrifol am hysbysu'r awdurdod lleol cartref yng Nghymru bod lleoliad wedi cael ei wneud o fewn 24 awr i draddodi'r ddedfryd honno (NS 9.3).<br><br>DS: Mae gan yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru ddyletswydd dan Ran 6 o'r Ddeddf i ymweld â'r holl blant a gedwir mewn sefydliad diogel o fewn 10 niwrnod wedi iddynt gyrraedd y sefydliad diogel – bydd cael yr hysbysiad hwn yn cychwyn y cloc o ran y ddyletswydd hon. | Bydd yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru'n cael ei hysbysu bod y plentyn yn cael ei gadw ac ynghylch unrhyw wybodaeth berthnasol sydd wedi'i chynnwys yn y system Asset / Asset Plus. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid i hysbysu'r awdurdod lleol cartref yng Nghymru bod y plentyn yn cael ei gadw. |

[16] Protocol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer lleoli pobl ifanc o Gymru mewn llety diogel

| | | |
|---|---|---|
| Os yw'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn credu y gall fod gan y plentyn anghenion gofal a chymorth nad ydynt wedi cael eu hasesu'n flaenorol a'u cofnodi yn yr Adroddiad Cyn Dedfrydu, gall ystyried gwneud atgyfeiriad at yr awdurdod lleol ar gyfer asesiad o anghenion gofal a chymorth y plentyn yr un pryd ag y bydd yn hysbysu'r awdurdod lleol ynghylch y ddedfryd mewn sefydliad diogel. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid i wneud atgyfeiriad ar gyfer asesiad gofal a chymorth. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid i atgyfeirio at yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru ar gyfer asesiad gofal a chymorth |
| Pan gaiff y plentyn ei ryddhau i'r gymuned a bod y Tîm Troseddau Ieuenctid yn credu y gall fod gan y plentyn anghenion gofal a chymorth gall ystyried gwneud atgyfeiriad at yr awdurdod lleol ar gyfer asesiad o anghenion gofal a chymorth y plentyn. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid i wneud atgyfeiriad ar gyfer asesiad gofal a chymorth. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid i atgyfeirio at yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru ar gyfer asesiad gofal a chymorth |
| Gall teulu neu ofalwyr y plentyn wneud atgyfeiriad at yr awdurdod lleol ar gyfer asesiad gofal a chymorth hefyd os ydynt yn credu bod gan y plentyn anghenion gofal a chymorth. | Gall y teulu/gofalwr ofyn i'r Tîm Troseddau Ieuenctid atgyfeirio neu gall atgyfeirio at yr awdurdod lleol yn uniongyrchol. | Aelodau unigol o'r teulu neu ofalwyr unigol |

| | | |
|---|---|---|
| **Llwybr digartrefedd ar gyfer plant a phobl ifanc** [cydberthynas]<br><br>**CARREG FILLTIR – Cyn mynd i'r ddalfa**<br><br>• Bydd yr Adroddiad Cyn Dedfrydu yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am lety'r plentyn/ person ifanc hefyd. Mae plant a phobl ifanc yn debygol o fod ag angen blaenoriaethol am dai dan adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.<br><br>Mae dau gategori angen blaenoriaethol yn cynnwys:<br>o person sy'n 16 neu 17 oed pan fo'r person yn gwneud cais i wasanaeth tai'r awdurdod lleol am lety neu gymorth i gael neu gadw llety neu<br>o person sydd wedi troi'n 18 pan fo'r person yn gwneud cais i wasanaeth tai awdurdod lleol am lety neu gymorth i gael neu gadw llety ond sydd heb droi'n 21, a oedd yn derbyn gofal, wedi'i letya neu wedi'i faethu ar unrhyw adeg pan oedd dan 18 oed.<br><br>• Bydd gwasanaethau plant yn gyfrifol am lety a chymorth ar gyfer unrhyw blant a phobl ifanc mewn sefydliad diogel nad ydynt wedi troi'n 18 eto. | Yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru i sicrhau dull integredig gan y gwasanaethau cymdeithasol a chydweithwyr ym maes tai. | Gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaeth tai'r awdurdod lleol cartref yng Nghymru |
| **Adeg derbyn i'r sefydliad diogel** | **Sut** | **Cyfrifoldeb** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfweliad Derbyn**:<br>Mae'r holl bobl ifanc yn cael '**cyfweliad derbyn'** gan staff y sefydliad diogel o fewn 2 awr i gyrraedd (neu fan bellaf cyn y noson gyntaf). Diben y cyfweliad yw canfod eu risg o niwed iddynt hwy eu hunain ac eraill. Dylai'r rhai sy'n cynnal y cyfweliad hwn gael gweld yr Adroddiad Cyn Dedfrydu a ddarparwyd gan wasanaeth lleoli'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.<br><br>Os yw'r unigolyn wedi bod yn cael gofal a chymorth cyn mynd i mewn i'r sefydliad diogel, dylai manylion y gofal a'r cymorth fod wedi'u dogfennu yn yr Adroddiad Cyn Dedfrydu. Os yw'r manylion hyn yn eisiau, am ba bynnag reswm, bydd hyn yn gyfle i staff ystyried a oes gan y plentyn unrhyw anghenion gofal a chymorth.<br><br>Os caiff anghenion gofal a chymorth uniongyrchol eu hadnabod o ganlyniad i'r cyfweliad derbyn bydd staff y sefydliad diogel yn sicrhau bod y person ifanc yn ddiogel yn ôl y canllawiau dalfa ddiogel sy'n weithredol yn y sefydliad hwnnw. Wedyn mae'n rhaid i staff yn y sefydliad diogel gysylltu â'r awdurdod lleol ar y diwrnod gwaith nesaf i ofyn am asesiad gofal a chymorth fel mater o flaenoriaeth.<br><br>(Bydd y cyfweliad derbyn yn ystyried sefyllfa'r person ifanc o ran tai hefyd). | Mae angen i gwestiynau gael eu cynnwys yn y sgript asesu cychwynnol i alluogi staff y sefydliad diogel i ystyried a oes unrhyw 'anghenion gofal a chymorth' *uniongyrchol*.<br><br>Gall staff yn y sefydliad diogel wneud atgyfeiriad ar gyfer asesiad gofal a chymorth y diwrnod gwaith nesaf. | Staff y sefydliad gofal/ yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Asesiad Cychwynnol:**<br>Pan fyddant yn cyrraedd y sefydliad diogel mae'r holl bobl ifanc yn cael eu hasesu gan nyrs gofrestredig neu feddyg cyn gynted â phosibl.<br><br>Bydd yr **asesiad cychwynnol** hwn yn asesu anghenion y plentyn a'r risg y bydd yn achosi niwed iddo ef ei hun neu i eraill. Bydd yr asesiad hwn yn amlygu unrhyw risgiau uniongyrchol, fel bod camau priodol yn cael eu cymryd i'w lleihau i'r eithaf ac mae'n cynnwys asesiad o anghenion iechyd ac iechyd meddwl (NS 9.8/9)<br><br>Dylai'r rhai sy'n cwblhau'r **asesiad cychwynnol** hwn gael gweld yr holl ddogfennau gwybodaeth cyfiawnder ieuenctid gan dîm lleoli'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.<br><br>Os canfyddir anghenion gofal a chymorth uniongyrchol o ganlyniad i'r asesiad cychwynnol bydd yr aseswr iechyd a gynhaliodd y cyfweliad yn sicrhau bod y person ifanc yn ddiogel yn ôl y canllawiau dalfa ddiogel sy'n weithredol yn y sefydliad hwnnw. Wedyn mae'n rhaid i'r aseswr iechyd gysylltu â'r awdurdod lleol ar y diwrnod gwaith nesaf i ofyn am asesiad fel mater o flaenoriaeth**.** | Mae angen i gwestiynau gael eu cynnwys yn y sgript asesu cychwynnol i alluogi staff y sefydliad diogel i ystyried a oes unrhyw 'anghenion gofal a chymorth' *uniongyrchol*.<br><br>Gall staff gofal iechyd wneud atgyfeiriad ar gyfer asesiad gofal a chymorth ar y diwrnod gwaith nesaf. | Staff gofal iechyd/ yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru |
| Os oedd cynllun gofal a chymorth eisoes yn ei le ar gyfer y plentyn cyn iddo gael ei ddedfrydu/ ei gadw bydd angen adolygu'r cynllun oherwydd y newid mewn amgylchiadau.<br><br>Dylai adolygiad o'r cynllun gofal a chymorth fod wedi cael ei ysgogi unwaith y cafodd yr awdurdod lleol ei hysbysu gan y Tîm Troseddau Ieuenctid bod plentyn wedi cael ei gadw. Bydd angen cynnal yr adolygiad hwn fel mater o flaenoriaeth. | Yr awdurdod lleol i gynnal adolygiad o'r cynllun gofal a chymorth. | Yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Sefydlu:**<br>Bydd yr holl bobl ifanc yn cael cwrs sefydlu ar eu hawliau a'u hawlogaethau tra byddant yn y ddalfa.<br><br>Mae'r cwrs sefydlu ar gyfer pobl ifanc mewn sefydliadau diogel yn debygol o fod yn unigoledig. Mae'n rhaid i waith gyda'r person ifanc gynnwys darparu gwybodaeth ar ei gyfer am y ffordd y mae'r broses gofal a chymorth yn gweithio yng Nghymru, fel bod y plentyn/ person ifanc yn deall sut i ddefnyddio'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy sydd ar gael iddo yn y sefydliad diogel, a sut i hunanatgyfeirio ar gyfer asesiad gofal a chymorth.<br><br>Dylai'r cwrs sefydlu gynnwys manylion Dyfarniad Southwark ac egluro'i berthnasedd i bobl ifanc. | Bydd yr awdurdod lleol yn darparu deunydd fel bod modiwl newydd ar y gofal a'r cymorth sydd ar gael yn cael ei ddatblygu a'i gynnwys yn y cwrs sefydlu ar ôl mis Ebrill 2016. | Yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru |
| **Gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy - hunanatgyfeirio**<br>Bydd y sefydliad diogel a'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad at y Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy a'u bod yn gallu hunanatgyfeirio ar gyfer asesiad gofal a chymorth. | Bydd yr awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a ffurflen atgyfeirio syml. | Y sefydliad diogel/ yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru |
| **Yn y ddalfa: Cynllunio Remand a Dedfryd** | **Sut** | **Cyfrifoldeb** |
| O fewn 10 niwrnod i osod y ddedfryd mewn canolfan gadw mae'n rhaid i'r Tîm Troseddau Ieuenctid a staff y sefydliad diogel gynnal **cyfarfod cynllunio ar y cyd** (NS 9.16) i ddatblygu cynllun dedfryd ar gyfer y cyfnod y bydd y person ifanc yn y ddalfa. Dylai'r awdurdod lleol gyfranogi yn y cyfarfod cynllunio ar y cyd hwn. Mae cyfarfodydd cynllunio remand yn cael eu cynnal o fewn 10 niwrnod hefyd.<br><br>DS: Mae gan yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru ddyletswydd dan Ran 6 o'r Ddeddf i ymweld â'r holl blant a gedwir mewn sefydliadau diogel o fewn 10 | Trwy fod yn bresennol yn y cyfarfod cynllunio ar y cyd ac ymweld â'r plentyn/ person ifanc ar yr adeg hon gall yr awdurdod lleol ystyried unrhyw anghenion gofal a chymorth, cynnal asesiad os oes angen a chyflawni ei ddyletswydd i ymweld â'r holl blant/ pobl | Y Tîm Troseddau Ieuenctid/ Y Sefydliad Diogel/ Yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru |

| | | |
|---|---|---|
| niwrnod wedi iddynt gyrraedd y sefydliad diogel.<br><br>[Dylai'r Cynllun Dedfryd gael ei oleuo gan yr wybodaeth asesu cyfiawnder ieuenctid ac mae'n nodi sut y bydd y person ifanc yn cael ei gefnogi trwy gydol ei ddedfryd yn y ganolfan gadw (NS17) gan gynnwys manylion unrhyw anghenion gofal a chymorth a manylion anghenion llety pan fydd yn cael ei ryddhau. Dylai'r cynllun dedfryd gael ei ddosbarthu i'r holl asiantaethau/unigolion perthnasol o fewn graddfa amser resymol; (NS 9.25)]. | ifanc sy'n cael eu cadw o fewn 10 niwrnod wedi iddynt gyrraedd y sefydliad diogel. | |
| Dylai'r **Cynllun Dedfryd** ddogfennu pa un a yw'r person ifanc yn cael gofal a chymorth yn barod – naill ai trwy gynllun gofal a chymorth a drosglwyddwyd gydag ef i'r ddalfa, neu oherwydd asesiad gofal a chymorth a gwblhawyd ers cyrraedd y ddalfa.<br><br>Os nad yw'r person ifanc yn cael gofal a chymorth gall yr awdurdod lleol ddefnyddio'r cyfarfod cynllunio ar y cyd fel cyfle i ystyried a yw'n credu y gall fod gan y person ifanc anghenion gofal a chymorth, a pha un a fyddai asesiad o fudd iddo.<br><br>Gall yr asesiad gofal a chymorth gael ei gyfuno ag asesiadau eraill h.y. tai, iechyd neu addysg. | Bydd yr Awdurdod Lleol yn asesu anghenion gofal a chymorth fel y bo angen.<br><br>Bydd y Tîm Troseddau Ieuenctid/ y sefydliad diogel yn sicrhau bod unrhyw ofal a chymorth yn cael ei integreiddio fel rhan o'r Cynllun Dedfryd. | Yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru/ Tîm Troseddau Ieuenctid |
| Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn gyfrifol am adolygu'r cynllun dedfryd bob mis yn ystod cyfnod y plentyn/ person ifanc yn y sefydliad diogel. Gall anghenion gofal a chymorth godi unrhyw bryd a gallant newid dros amser. Dylid adolygu'r rhain mewn cyfarfodydd cynllunio dedfryd.<br><br>Mae'n ofynnol i'r Tîm Troseddau Ieuenctid gynnal cyswllt â'r person ifanc, a'i rieni/gofalwyr, i'w cefnogi trwy gydol y ddedfryd ac mae'n rhaid iddo gael cyswllt o leiaf bob deufis (NS 9.27). Gall hyn fod yn gyfle i'r Tîm Troseddau Ieuenctid ystyried anghenion gofal a chymorth y plentyn/ person ifanc ac os felly ei | Y Tîm Troseddau Ieuenctid i ddefnyddio'r cyfarfodydd rheolaidd gyda'r person ifanc/ teulu/ gofalwyr i adolygu'r cynllun dedfryd i ystyried ei anghenion gofal a chymorth. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid/ Yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru |

| | | |
|---|---|---|
| atgyfeirio at yr awdurdod lleol ar gyfer asesiad. | | |
| Gall pobl ifanc **hunanatgyfeirio** ar gyfer asesiad gofal a chymorth unrhyw bryd. Bydd y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy sydd ar gael mewn sefydliadau diogel yn darparu'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pobl ifanc a dyma ble y gall yr asesiad ddechrau.<br><br>Gallai **aelodau o'r teulu a gofalwyr** yn y gymuned ofyn am asesiad ar gyfer y person ifanc hefyd trwy gysylltu â'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn awdurdod lleol cartref y person ifanc neu drwy ofyn i'w Dîm Troseddau Ieuenctid neu weithwyr proffesiynol eraill wneud hynny.<br><br>Fel arall, gallai **gweithwyr proffesiynol eraill** sy'n gweithio gyda'r sefydliad diogel atgyfeirio person ifanc ar gyfer asesiad. Gallai hyn gynnwys staff y sefydliad diogel, y Tîm Troseddau Ieuenctid, ymarferwyr gofal iechyd, meddygon teulu neu weithwyr yn y trydydd sector, megis y gweithwyr cymorth eirioli sy'n gweithio ar draws y sefydliadau diogel ar gyfer pobl ifanc. | Gallai'r person ifanc hunanatgyfeirio trwy fynediad at rif ffôn pwrpasol neu rif Rhadffôn a.y.b. gan ddibynnu ar y model darparu a fabwysiadwyd yn lleol. Fel arall gall y plentyn/ person ifanc gwblhau ffurflen atgyfeirio syml a'i throsglwyddo i'r awdurdod lleol perthnasol.<br><br>Gall pobl eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn/ person ifanc wneud atgyfeiriad. | Y person ifanc/ teulu/ gofalwr/ gweithiwr proffesiynol arall |
| **Llwybr digartrefedd ar gyfer plant a phobl ifanc** [cydberthynas]<br><br>**CARREG FILLTIR – Yn y ddalfa**<br><br>Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn gyfrifol am adolygu'r cynllun dedfryd bob mis tra bo'r plentyn/ person ifanc yn cael ei gadw yn y sefydliad diogel. Bydd y cynllun dedfryd yn dogfennu anghenion tai ac yn ceisio sicrhau bod cyfleoedd i'r plentyn/ person ifanc ddychwelyd adref neu lety addas yn cael eu hystyried. Mae'n rhaid i'r Tîm Troseddau Ieuenctid fod yn ymwybodol o'r garreg filltir 66 diwrnod a'r garreg filltir 7 niwrnod yn y llwybr digartrefedd ond gellid gwneud atgyfeiriad at awdurdod lleol ar gyfer cymorth tai unrhyw bryd (gweler isod). | Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn gyfrifol am ystyried anghenion llety'r plentyn/ person ifanc. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid |

| Gwaith cyn rhyddhau | Sut | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| **Llwybr digartrefedd ar gyfer plant a phobl ifanc** [cydberthynas]<br><br>**CARREG FILLTIR - 66 diwrnod cyn rhyddhau** os canfuwyd materion tai a bod y rhain heb eu datrys mae'n rhaid i'r Tîm Troseddau Ieuenctid gwblhau ffurflen gais anghenion tai a'i chyflwyno i'r awdurdod lleol perthnasol.<br><br>[Os yw'r ddedfryd sy'n cael ei bwrw'n llai na 66 diwrnod mae angen i'r Tîm Troseddau Ieuenctid ystyried anghenion llety mor gynnar â phosibl].<br><br>Mae adran 104 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 yn sicrhau y bydd unrhyw un a oedd yn cael ei gadw mewn llety cadw ieuenctid wedi'i ddiffinio'n gyfreithiol fel person sy'n derbyn gofal ac felly'n meddu ar statws angen blaenoriaethol.<br><br>Os yw'r plentyn/ person ifanc yn mynd i gael ei ryddhau ar drwydded (gyda monitro electronig) bydd angen i'r cyfeiriad gael ei wneud yn hysbys i'r Tîm Troseddau Ieuenctid, cael ei asesu ganddo i gadarnhau ei fod yn addas a chael ei ddogfennu ganddo cyn i'r person ifanc gael ei ryddhau. Dylid cytuno ar hyn yn y cyfarfod i baratoi ar gyfer rhyddhau. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid i ystyried yr anghenion llety yn ystod ei adolygiad rheolaidd o'r cynllun dedfryd ac, ar yr adeg briodol, cwblhau ffurflen gais anghenion tai yn unol â'r llwybr digartrefedd. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid |
| Bydd y sefydliad diogel a'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn gwybod y dyddiad rhyddhau arfaethedig ar gyfer y person ifanc. Caiff cynlluniau dedfryd pobl ifanc eu hadolygu gan y Tîm Troseddau Ieuenctid yn rheolaidd trwy gydol y ddedfryd a byddant yn cynnwys unrhyw gynlluniau ar gyfer ailsefydlu a rhyddhau.<br><br>Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn gyfrifol, ar y cyd â'r sefydliad diogel, am drefnu **cyfarfod paratoi ar gyfer rhyddhau** 4 wythnos cyn i'r person ifanc gael ei ryddhau (NS 9.43). | Y Tîm Troseddau Ieuenctid i drefnu'r cyfarfod cyn rhyddhau a gwahodd yr awdurdod lleol i ystyried anghenion tai ac anghenion gofal a chymorth y plentyn/ person ifanc.<br><br>Bydd anghenion iechyd y plentyn/ person ifanc yn cael | Y Tîm Troseddau Ieuenctid/ Yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru |

| | | |
|---|---|---|
| Dylai'r cyfarfod paratoi ar gyfer rhyddhau ystyried holl anghenion y person ifanc gan gynnwys unrhyw anghenion llety / anghenion gofal a chymorth ac os yw'r rhain yn bodoli, sut y byddant yn cael eu diwallu pan fydd yn cael ei ryddhau. [Mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldebau am blant sy'n derbyn gofal sy'n gadael sefydliadau diogel ac am bobl 16-17 oed sy'n gadael gofal].<br>Dylai'r Tîm Troseddau Ieuenctid wahodd yr awdurdod lleol i fod yn bresennol yn y cyfarfod paratoi ar gyfer rhyddhau, ond os bu gan y plentyn/ person ifanc gynllun gofal a chymorth tra'r oedd yn cael ei gadw yn y sefydliad diogel mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyfranogi. Bydd y cynllun ailsefydlu'n dogfennu'r ffordd y bydd anghenion y plentyn/person ifanc yn cael eu diwallu pan fydd yn cael ei ryddhau.<br><br>Os nad oes cynllun gofal a chymorth yn ei le tra bo'r plentyn/ person ifanc yn cael ei gadw, dylai'r Tîm Troseddau Ieuenctid ddefnyddio'r cyfarfod paratoi ar gyfer rhyddhau fel cyfle i ystyried a all fod gan yr unigolyn anghenion gofal a chymorth pan fydd yn cael ei ryddhau, ac i'w atgyfeirio at yr awdurdod lleol i gael asesiad gofal a chymorth os oes angen.<br><br>Cyn iddo gael ei ryddhau dylai anghenion iechyd y plentyn/ person ifanc gael eu hasesu cyn ei drosglwyddo i'r gymuned, fel bod yr awdurdod iechyd yn gallu darparu gwasanaethau wedi'u cynllunio pan fydd yn cael ei drosglwyddo i'r gymuned. (NS 9.44) | eu hasesu cyn iddo gael ei ryddhau hefyd. | Iechyd |
| Os yw'r person ifanc yn debygol o ddod yn ofalwr, neu o ailgydio mewn dyletswyddau gofalu pan fydd yn cael ei ryddhau o'r ddalfa, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried ei anghenion cymorth. Dylai'r plentyn/ person ifanc gael ei hysbysu ynghylch y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy yn ei ardal leol. | Yr awdurdod lleol i ystyried cymorth ar gyfer gofalwr ifanc. | Yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru |
| Bydd y Tîm Troseddau Ieuenctid yn trefnu **cyfarfod rhyddhau terfynol** 10 niwrnod cyn i'r person ifanc gael ei ryddhau (NS9.47). Mae hwn yn gyfle pellach | Yr awdurdod lleol i fod yn bresennol yn y cyfarfod | Tîm Troseddau Ieuenctid/ Yr |

| | | |
|---|---|---|
| i'r awdurdod lleol fod wedi sefydlu unrhyw drefniadau gofal a chymorth os oes angen y rhain neu i'r Tîm Troseddau Ieuenctid ystyried a yw'n debygol y bydd unrhyw anghenion gofal a chymorth ar adeg ailsefydlu nad ydynt wedi cael eu hadnabod eto, ac i wneud yr atgyfeiriad angenrheidiol os byddant yn teimlo bod hyn yn angenrheidiol. | rhyddhau terfynol i gytuno ar drefniadau gofal a chymorth neu i'r Tîm Troseddau Ieuenctid wneud yr atgyfeiriad angenrheidiol ar gyfer asesiad gofal a chymorth. | awdurdod lleol cartref yng Nghymru |
| **Llwybr digartrefedd ar gyfer plant a phobl ifanc** [cydberthynas]<br><br>**CARREG FILLTIR – O fewn 7 niwrnod i'r dyddiad ryddhau** bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a oes dyletswydd i ddarparu llety interim a fydd yn dechrau o'r dyddiad rhyddhau mewn cyswllt â'r Tîm Troseddau Ieuenctid a chyfrifoldebau ailsefydlu. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion bydd gwasanaeth tai'r awdurdod lleol wedi cael 66 diwrnod i ddod o hyd i lety addas ar gyfer y plentyn/ person ifanc ac os nad yw wedi cael ei 21ain pen-blwydd pan fydd yn cael ei ryddhau, dylai gael manylion ei lety 7 niwrnod cyn ei ryddhau. | Bydd angen i wasanaeth tai'r awdurdod lleol benderfynu a oes llety interim yn ofynnol ond yn y mwyafrif o achosion dylai fod wedi cytuno ar lety addas ar gyfer yr unigolyn. | Yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru/ Y Tîm Troseddau Ieuenctid |
| **Diwrnod rhyddhau** | **Sut** | **Cyfrifoldeb** |
| Y Tîm Troseddau Ieuenctid i oruchwylio bod yr **ailsefydlu cychwynnol yn digwydd ar y diwrnod rhyddhau** a chydgysylltu'r asiantaethau sy'n darparu cymorth i sicrhau bod materion yn cael eu datrys yn gyflym ac yn bragmatig.<br><br>Mae'n ofynnol i blant/ pobl ifanc fynd i weld y Tîm Troseddau Ieuenctid ar y diwrnod rhyddhau (NS 9.53). Mae'n ofynnol i weithiwr achosion y Tîm Troseddau Ieuenctid gynnal ymweliad â'r cartref o fewn pum niwrnod ar ôl i'r plentyn/ person ifanc gael ei ryddhau (NS 9.55), ac o leiaf yn fisol wedyn.<br><br>Lle gallai dedfryd fod yn fyr neu lle mae ffactorau eraill wedi golygu nad oes asesiad gofal a chymorth wedi cael ei gwblhau, neu nad oes cynllun gofal a chymorth wedi cael ei ddatblygu yn ystod y diwrnodau yn union cyn rhyddhau, | Y Tîm Troseddau Ieuenctid i gymryd y cyfle ar y diwrnod rhyddhau i roi ystyriaeth bellach i anghenion gofal a chymorth a gwneud atgyfeiriad fel y bo angen. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid/ Yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru |

| | | |
|---|---|---|
| bydd y cyfarfod ar y diwrnod rhyddhau rhwng y Tîm Troseddau Ieuenctid a’r plentyn/ person ifanc yn gyfle i ystyried ymhellach a oes unrhyw anghenion gofal a chymorth, ac os felly i’r Tîm Troseddau Ieuenctid atgyfeirio’r plentyn/ person ifanc at yr awdurdod lleol ar gyfer asesiad.<br><br>Gall y person ifanc hunanatgyfeirio hefyd a gall teulu/ gofalwyr y person ifanc gysylltu â’r awdurdod lleol cartref yng Nghymru ar gyfer asesiad gofal a chymorth unrhyw bryd. | | |
| **Llwybr digartrefedd ar gyfer plant a phobl ifanc** [cydberthynas]<br><br>**CARREG FILLTIR – diwrnod rhyddhau**<br><br>Mae’n ofynnol i’r plentyn/ person ifanc fynd i weld y Tîm Troseddau Ieuenctid ar ddiwrnod ei ryddhau. Mae’n ofynnol i’r Tîm Troseddau Ieuenctid gynnal ymweliad â’r cartref o fewn pum niwrnod wedi iddo gael ei ryddhau (NS 9.55), ac o leiaf yn fisol wedi hynny. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid a’r person ifanc yn cydweithio | |
| **Adolygu ar ôl rhyddhau** | **Sut** | **Cyfrifoldeb** |
| Mae hefyd yn ofynnol i’r Tîm Troseddau Ieuenctid gadeirio **cyfarfod adolygu ar ôl rhyddhau**, o fewn mis i ryddhau’r person ifanc. Dylai’r cyfarfod adolygu hwn fod gyda’r person ifanc, ei rieni/gofalwyr a chyda’r asiantaethau/unigolion hynny sy’n cyfranogi yn y cynllun ailsefydlu, gan gynnwys staff y sefydliad diogel (NS9.54 a 9.57)<br><br>Os oes cynllun gofal a chymorth yn ei le dylai’r awdurdod lleol gyfranogi yn y cyfarfod ar ôl rhyddhau.<br><br>Os nad oes cynllun gofal a chymorth yn ei le dylai’r Tîm Troseddau Ieuenctid ystyried anghenion gofal a chymorth yr unigolyn ar ôl ei ryddhau ac atgyfeirio at | Y Tîm Troseddau Ieuenctid i atgyfeirio at yr awdurdod lleol perthnasol ar gyfer asesiad gofal a chymorth os yw hyn yn ofynnol. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid/ Yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru |

| | | |
|---|---|---|
| yr awdurdod lleol perthnasol i gynnal asesiad gofal a chymorth os ystyrir bod hyn yn briodol.<br><br>Yn dilyn asesiad gofal a chymorth, os ystyriwyd fod angen yn gymwys, gellir datblygu cynllun gofal a chymorth ar y cyd â'r person ifanc, ei deulu/ gofalwyr a'r Tîm Troseddau Ieuenctid.<br><br>Yn dilyn asesiad gofal a chymorth, os nad oedd angen yn gymwys byddai'r unigolyn yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy a gwasanaethau ataliol i ystyried a ellid darparu unrhyw gymorth pellach yn y ffordd yma.<br>Beth bynnag fydd canlyniad yr asesiad, bydd y person ifanc, ynghyd â'i deulu a'i ofalwyr, yn cael ei hysbysu y gall gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy unrhyw bryd yn y dyfodol, ac mai dyma'r pwynt mynediad ar gyfer cymorth pellach. | | |
| **Llwybr digartrefedd ar gyfer plant a phobl ifanc** [cydberthynas]<br><br>**CARREG FILLTIR – adolygu ar ôl rhyddhau**<br><br>Mae'n ofynnol i'r Tîm Troseddau Ieuenctid gadeirio cyfarfod adolygu ar ôl rhyddhau o fewn mis i ryddhau'r person ifanc. Os bydd gan y Tîm Troseddau Ieuenctid bryderon ynghylch addasrwydd y llety y mae'r awdurdod lleol wedi dod o hyd iddo, neu bryderon ynghylch bygythiad newydd o ddigartrefedd, dylai'r Tîm Troseddau Ieuenctid gysylltu â'r pwynt cyswllt perthnasol yn adran dai'r awdurdod lleol. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid i gysylltu ag adran dai'r awdurdod lleol os oes pryderon ynghylch y llety. | Y Tîm Troseddau Ieuenctid/ Yr awdurdod lleol cartref yng Nghymru |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Pontio i wasanaethau oedolion** | | |
| Bydd pobl ifanc a gaiff eu rhyddhau ar drwydded yn dal i fod dan oruchwyliaeth y Tîm Troseddau Ieuenctid y tu hwnt i'w 18fed pen-blwydd tan ddiwedd eu gorchymyn (os ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn cadw a hyfforddi). Fodd bynnag, bydd pobl ifanc y mae eu dedfryd mewn sefydliad diogel ymestyn y tu hwnt i'w 18fed pen-blwydd yn cael eu trosglwyddo i garchar oedolion.<br><br>Bydd y Tîm Troseddau Ieuenctid yn gwybod oedran y person ifanc a'r dyddiad pan fyddai disgwyl iddo bontio i oruchwyliaeth fel oedolyn a bydd yn gwneud trefniadau gyda'r gwasanaeth perthnasol i gynllunio'r broses drosglwyddo ac i rannu gwybodaeth berthnasol.<br><br>Os yw'r trosglwyddiad o fewn yr ystâd sefydliadau diogel yn un i sefydliad ar gyfer oedolion a bod hynny'n golygu trosglwyddo i awdurdod lleol arall, dylai hyn gynnwys cyswllt â'r awdurdod lleol y mae'r sefydliad diogel wedi'i leoli yn ei ardal ac y bydd y cyfrifoldeb am ofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn yn trosglwyddo iddo. | | Y Tîm Troseddau Ieuenctid |